Er bod Cydbwyllgor Llywodraethu wedi cael ei sefydlu i wneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau ar ran y Bartneriaeth, mae nifer o faterion / penderfyniadau wedi'u cadw yn ôl ac mae'n rhaid eu trafod gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol am gymeradwyaeth, manylir arnynt yn Atodlen 2 y Cytundeb Rhwng Awdurdodu.

3.4.2 Cydbwyllgor Llywodraethu

Cafodd Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru ei ffurfioli ym mis Mehefin 2017 ac maent wedi cyfarfod yn aml ers hynny. Mae'r CBLl yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae pob cyfarfod yn cael ei we ddarlledu i'r cyhoedd. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn sicrhau cyfarfodydd agored a thryloyw ac yn cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion a gwe ddarllediadau, lle bo'n briodol.

Mae'r CBLl yn cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a chynrychiolydd aelod cyfetholedig (heb bleidlais) o aelodau'r cynllun. Rhaid i'r aelod etholedig fod yn aelod o'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw ac yn aelod o Bwyllgor Pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cylchdroi bob blwyddyn. Y cadeirydd presennol yw'r Cynghorydd Clive Lloyd – Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe) a'r is-gadeirydd presennol yw'r Cynghorydd Christopher Weaver - Cyngor Dinas Caerdydd (Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg).

Mae'r CBLl yn gyfrifol am oruchwylio'r dasg o gyfuno buddsoddiadau'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Amlinellir y casgliad llawn o gyfrifoldebau'r CBLl yn Atodlen 3 (Materion CBLl) ac Atodlen 4 (Cylch Gorchwyl y CBLl) y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

3.4.3 Gweithgor Swyddogion

Mae Gweithgor Swyddogion (GS) Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cael ei sefydlu er diben darparu cefnogaeth a chyngor i'r Cydbwyllgor Llywodraethu. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter gyda chyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.

Mae'r GS yn cynnwys ymarferwyr a swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Cadeirydd y GC yw Chris Moore, Swyddog Adran 151 o Gyngor Sir Gâr (Awdurdod Cynnal). Amlinellir cylch gwaith y GS yn Atodlen 8 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

3.4.4 Awdurdod Cynnal

Mae Cyngor Sir Gâr wedi cael ei benodi'n Awdurdod Cynnal ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn darparu'r gefnogaeth weinyddol a'r gefnogaeth ysgrifenyddol i'r CBLl ac yn cysylltu o ddydd i ddydd gyda'r gweithredwr ar ran yr holl gronfeydd CPLlL yng Nghymru. Amlinellir rôl yr Awdurdod Cynnal yn Adran 6 y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

Swyddog Monitro

Mae'r Swyddog Monitro (Pennaeth Gweinyddiaeth a Chyfraith) yn gyfrifol am gynnal y Cytundeb Rhwng Awdurdodau i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol cyfredol ac anghenion Llywodraethu'r Bartneriaeth ac mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r darpariaethau ar bob lefel. Mae'r Swyddog Monitro yn mynychu pob cyfarfod CBLl.

Mae'r Swyddog Monitro mewn sefyllfa dda i chwarae rôl ragweithiol yn cefnogi Aelodau a Swyddogion mewn gosodiadau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith a chyda gweithdrefnau'r Bartneriaeth ei hun. Fel y Pennaeth Gwasanaeth gyda chyfrifoldeb am yr Uned Wasanaethau Democrataidd yn y pen draw, mae'r Swyddog Monitro hefyd yn gyfrifol am gofnodi a chyhoeddi'r broses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau yn ffurfiol.

Mae'r Swyddog Monitro yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Adran 151 yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a bydd yn adrodd i'r Cydbwyllgor Llywodraethu os yw'n ystyried y bydd unrhyw gynnig yn arwain at anghyfreithlondeb.

Swyddog Adran 151

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth materion y Bartneriaeth dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a gydag ef/hi y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am weinyddiaeth ariannol y Bartneriaeth.

Cyhoeddwyd "Datganiad ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol" yn flaenorol gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae'r Datganiad yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol (PSA) ac yn amlinellu'r pum Prif Egwyddor (gweler isod) sy'n diffinio'r gweithgareddau a'r ymddygiadau craidd sy'n perthyn i rôl y PSA mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a'r trefniadau cyfundrefnol sydd eu hangen i'w cefnogi. Drwy benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, mae Cyngor Sir Gâr yn cydymffurfio'n llawn â'r Datganiad.

- Egwyddor 1 - Mae PSA mewn Awdurdod Lleol yn aelod allweddol o'r Tîm Arweinyddiaeth, yn ei gynorthwyo i ddatblygu a gweithredu strategaeth ac i ariannu a chyflawni amcanion strategol yr Awdurdod yn gynaliadwy ac er budd y cyhoedd.
- Egwyddor 2 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol fod â rhan weithredol yn yr holl benderfyniadau busnes pwysig, a gallu dylanwadu arnynt, er mwyn sicrhau bod goblygiadau, cyfleoedd a risgiau uniongyrchol a hirdymor yn cael eu hystyried yn llawn, ac yn cyd-fynd â strategaeth ariannol gyffredinol yr Awdurdod.
- Egwyddor 3 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol arwain hyrwyddiad a darpariaeth rheolaeth ariannol da gan yr Awdurdod cyfan fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu bob amser ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol.
- Egwyddor 4 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol arwain a chyfarwyddo swyddogaeth gyllidol sydd angen ei hariannu er mwyn bod yn addas at y diben.
- Egwyddor 5 - Rhaid i Brif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol fod â chymhwyster proffesiynol a meddu ar brofiad addas.

3.4.5 *Link Fund Solutions*

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi dylunio model gweithredu sy'n hyblyg ac yn gallu cyflawni gwerth am arian. Mae *Link Fund Solutions Ltd* (*Link*) wedi cael ei benodi fel y Gweithredwr allanol a, gyda chymorth *Russell Investments*, mae'n darparu rheolaeth effeithiol dros fuddsoddiadau ac yn rhoi sicrwydd o ran perfformiad ffioedd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae Cytundeb Gweithredwr yn ei le gyda *Link Fund Solutions* sy'n amlinellu dyletswyddau cytundebol y Gweithredwr ac yn rheoli'r berthynas rhwng y Gweithredwr a'r Bartneriaeth.

3.4.6 Ymgynghorwyr Allanol

Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Ymgynghorwyr Allanol i ddarparu cefnogaeth a chyngor ychwanegol. Mae pob contract yn mynd drwy broses caffael ffurfiol yn unol â Chanllawiau Caffael Cyngor Sir Gâr.

<u>Ymgynghorwyr Cyfreithiol - *Burges Salmon*</u>

Mae *Burges Salmon* yn darparu cyngor Cyfreithiol, yn ôl yr angen.

<u>Ymgynghorwyr Trosolwg - *Hymans Robertson*</u>

Mae *Hymans Robertson* wedi cael eu penodi'n Ymgynghorwyr Trosolwg ar gyfer y Bartneriaeth. Mae rôl *Hymans Robertson* yn rhychwantu trosolwg a chyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddiad strategol a chefnogaeth rheoli prosiect. Maent yn mynychu holl gyfarfodydd y GS a'r CBLl.

<u>Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu - *Robeco Ltd*</u>

Mae *Robeco* wedi cael eu penodi'n darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru a byddant yn cynorthwyo'r Bartneriaeth i lunio a chynnal Polisi Pleidleisio ac Egwyddorion Ymgysylltu sy'n cyd-fynd ag aelodaeth Awdurdodau Cyfansoddol Cymreig o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdod Lleol ('LAPFF'). Bydd *Robeco* hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio ecwiti gweithredol £5bn y Bartneriaeth ac yn adrodd i'r Bartneriaeth a'r Cronfeydd sylfaenol.

3.5 <u>Ffynonellau Sicrwydd Llywodraethu</u>

3.5.1 Archwiliad Mewnol

Mae'r tîm Archwilio Mewnol yng Nghyngor Sir Gâr yn cynnal adolygiadau Archwilio Mewnol mewn sawl maes o fewn yr Awdurdod, yn adolygu effeithiolrwydd y systemau a'r trefniadau llywodraethu. Mae'n ofynnol i Archwilio Mewnol ymgymryd â'u gwaith yn unol â'r safonau a amlinellir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a sefydlwyd yn 2013, sef y safonau proffesiynol y cytunwyd arnynt ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol.

3.5.2 Matrics Llywodraethu

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi datblygu Matrics Llywodraethu sy'n canolbwyntio ar amlinellu'r gwahanol rolau y mae cyrff o fewn y Bartneriaeth yn eu chwarae ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Bartneriaeth. Mae hefyd yn mynegi bod y Bartneriaeth yn ymgynghori / chwilio

am fewnbwn gan nifer o wahanol gyrff o fewn y Bartneriaeth cyn ffurfioli penderfyniadau. Mae'r broses hon yn amlygu'r nifer o wiriadau a'r dulliau pwyso a mesur y mae'r Bartneriaeth wedi'u datblygu yn ei phroses wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod llywodraethu da yn cael ei gyflawni.

3.5.3 Protocol Ymgysylltu

Mae'r Bartneriaeth yn credu mewn ymgysylltu rheolaidd gyda'i rhanddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu Fframwaith Protocol Ymgysylltu sy'n pennu'r dulliau ymgysylltu a ganlyn:

- Cyfarfodydd Adolygu'r Berthynas Strategol - Bob hanner blwyddyn
- Ymgysylltu â'r CBLl - Chwarterol
- Ymgysylltu â'r GS - Chwarterol
- Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn – Bob chwe mis
- Diwrnod Blynyddol i Randdeiliaid - Blynyddol
- Pwyllgorau'r Gronfa Bensiwn - Blynyddol
- Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr – Blynyddol m n
- Cyfathrebu ag Aelodau - Blynyddol
- Ymgysylltu drwy'r wefan a *LinkedIn* - parhaus

Yn ogystal ag ymgysylltu rheolaidd rhwng Swyddogion, Aelodau a Phartïon Allanol, fel y manylir ar ddiagram y Strwythur Llywodraethu, mae'r ymgysylltu hwn hefyd yn cynnwys ymgysylltu rhwng Aelodau Pwyllgorau Pensiwn, Aelodau Byrddau Pensiwn a Rheolwyr Cronfeydd Buddsoddi, rhai presennol a rhai posib.

3.5.4 Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn deall pwysigrwydd Buddsoddi Cyfrifol ac wedi datblygu Polisi Buddsoddi Cyfrifol cyffredinol ar gyfer y Bartneriaeth. Datblygwyd y polisi hwn mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol ac mae'n ymdrin â'r prif feysydd isod:

- Cyflwyniad a Throsolwg
- Uchelgais a Chredoau
- Y Strategaeth Fuddsoddi
- Newid Hinsawdd
- Eithriadau
- Gweithredu'r Strategaeth
- Stiwardiaeth - Pleidleisio, Benthyca Stoc ac Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid
- Cydweithio
- Monitro, Adrodd a Mesur

3.5.5 Hyfforddiant

Mae'n rhaid i staff y Bartneriaeth feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth briodol o:
- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol;
- cyfuno Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru; a
- cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu cynllun hyfforddiant sydd wedi'i ddylunio i ychwanegu at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth ynghylch cyfuno cronfeydd.

Mae'r Awdurdod Cynnal yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Cedwir cofnod dan y cynllun hyfforddiant a fydd yn cynnwys manylion cyfredol o'r holl hyfforddiant sydd wedi'i gwblhau, a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant yn canolbwyntio ar gwrdd ag anghenion hyfforddiant aelodau'r GS a'r CBLl; fodd bynnag, anogir Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Aelodau eu Pwyllgor Pensiynau, yn ogystal â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os ydynt yn credu y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hyn.

3.5.6 Cyfathrebu

Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru o'r farn bod cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol yn hanfodol os ydyw am lwyddo i gyflawni ei amcanion. Mae'r Bartneriaeth wedi datblygu polisi cyfathrebu sydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae'r polisi yn amlinellu'r hyn a ganlyn mewn perthynas â'r Bartneriaeth:

- Cynulleidfa Darged
- Prif Negeseuon / Prif Ddiben
- Dull Cyfathrebu
- Cyfrifoldebau
- Y Broses Adolygu a Myfyrio

Mae gan y Bartneriaeth wefan a thudalen *LinkedIn* hefyd sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r wefan (www.partneriaethpensiwncymru.org) yn ymdrin â sawl maes, gan gynnwys Llywodraethu, Cyhoeddiadau (yn cynnwys Polisïau'r Bartneriaeth) datblygiadau'r Is-gronfeydd a Newyddion (yn cynnwys datganiadau i'r wasg).

3.5.7 Rheoli Risg

Mae rheoli risg wedi cael ei ymblannu drwy'r elfen o lywodraethu'r Bartneriaeth. Ystyrir risgiau yn holl weithgareddau'r Bartneriaeth, yn enwedig wrth benderfynu ar ddatblygiad a strwythur is-gronfeydd. Mae Polisi Risg wedi'i lunio sy'n amlinellu sut mae'r PPC yn nodi, yn rheoli ac yn monitro risgiau. Yn ogystal, mae Cofrestr Risg wedi'i datblygu i fonitro a rheoli risgiau posibl sy'n cael eu cynnal a'u gwerthuso gan Is-grŵp Risg pwrpasol bob chwarter.

3.5.8 Rheolyddion Allanol

Mae Archwilio Cymru, fel Archwilwyr Allanol y Bartneriaeth, yn adolygu a gwneud sylwadau ar agweddau ariannol Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, statws ariannol, systemau Rheolaeth Ariannol Mewnol a safonau ymddygiad ariannol a thwyll a llygredd. Mae'r cynllun Archwilio Allanol yn cael ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu.

3.6 Materion llywodraethu i roi sylw iddynt / Cynllun Gweithredu

Mae'r Bartneriaeth o'r farn bod llywodraethu da yn arwain at well canlyniadau i'w rhanddeiliaid, ac felly bydd yn dal ati i ddatblygu ei fframwaith llywodraethu drwy ddatblygu polisïau, cofrestri a chynlluniau ychwanegol ac yn cynnal adolygiadau parhaus o'i dogfennau a'i strwythur llywodraethu presennol.

Mae gan y Bartneriaeth gynllun gwaith tair blynedd fydd yn ffurfio rhan o'r Cynllun Busnes. Mae hwn yn ymdrin â nifer o feysydd gwaith, gyda Llywodraethu yn un ohonynt.

Cynllun Gweithredu'r Bartneriaeth am y 12 mis nesaf:

1. Datblygu Cynllun Busnes tair blynedd y Bartneriaeth
2. Datblygu Polisi Chwythu'r Chwiban
3. Datblygu Cynllun Parhad Busnes PPC (gan gynnwys Seiber)
4. Adolygiad parhaus o'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau
5. Adolygiad rheolaidd o bolisïau a chynlluniau'r Bartneriaeth

* Mae'r Cynllun Busnes wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo gan y CBLl ar 23 Mawrth 2022, ac mae bellach gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol i'w gymeradwyo'n derfynol.

3.7 Casgliad

Dangoswyd lefel dda o sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu o fewn y Bartneriaeth gyda systemau digonol ac effeithiol yn eu lle. Mae'r holl swyddogion wedi bod yn gweithio o adre ers mis Mawrth 2020 ac mae cyfarfodydd y CBLl / GC wedi cael ac yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir. Bydd gweithredu'r camau gweithredu o'r cynllun gweithredu yn adran 3.5 yn cael ei fonitro a'i adolygu fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

4 DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys yr isod:

4.1 DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR (CIES)

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

2020/21 (£)	Disgrifiad	2021/22 (£)	Nodiadau
-	**Gwariant**	-	-
59,455	Costau staff	64,360	
13,556	Costau Awdurdod Cynnal	18,490	
556,177	Costau Ymgynghorwyr Allanol*	915,478	
77,063	Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Cynnal	79,183	
706,251	**Cyfanswm Gwariant Gweithredu**	**1,077,511**	
	Incwm		
(706,251)	Taliadau a Ail-godir ar Awdurdod Cyfansoddol**	(1,077,511)	
(706,251)	**Cyfanswm Incwm Gweithredu**	**(1,077,511)**	
0	**Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**	**0**	

* Cynyddodd y gyllideb ar gyfer Costau Ymgynghorwyr Allanol yn 2021/22
** Ariennir y costau hyn gan bob un o'r wyth Cronfa CPLlC yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.

4.2 MANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos asedau a rhwymedigaethau'r Bartneriaeth fel ar 31 Mawrth 2022.

31 Mawrth 2021 (£)	Disgrifiad	31 Mawrth 2022 (£)	Nodiadau
	Asedau Cyfredol		
381,767	Dyledwyr Tymor Byr	501,316	3
381,767	**Cyfanswm Asedau Cyfredol**	**501,316**	
	Rhwymedigaethau Cyfredol		
(188,185)	Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth	(317,106)	
(193,582)	Credydwyr Tymor Byr	(184,210)	4
(381,767)	**Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol**	**(501,316)**	
0	**Cyfanswm Net Asedau**	**0**	

4.3 DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sydd gyfwerth gan y Bartneriaeth yn ystod y cyfnod adrodd.

2020/21 (£)	Disgrifiad	2021/22 (£)	Nodiadau
	Llif arian o weithgareddau gweithredu		
0	Net (gwarged) / diffyg yn narpariaeth gwasanaethau	0	
	Addasiadau ar gyfer:		
(14,278)	(Cynnydd) mewn masnach a dyledwyr eraill	(119,549)	
49,809	Cynnydd mewn masnach a chredydwyr eraill	(9,372)	
35,531	**Arian parod Net o weithgareddau gweithredu**	**(128,921)**	
	Net (Cynnydd) / Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth		
(223,716)	Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 1 Ebrill	(188,185)	
(188,185)	Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 31 Mawrth	(317,106)	
35,531	**Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 31 Mawrth**	**(128,921)**	

5 NODIADAU AR Y CYFRIFON

5.1 Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a'i sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2022. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a ddefnyddir wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn yn cael eu hamlinellu isod. Mae'r polisïau hyn wedi cael eu defnyddio'n gyson ar gyfer yr holl gyfnodau a gyflwynwyd, oni nodir yn wahanol.

5.1.1 Busnes Gweithredol

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

5.1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi dan y cysyniad Croniadau o gyfrifyddu sydd angen adnabod incwm a gwariant yn y cyfnodau cyfrifyddu y maent yn ymwneud â hwy yn hytrach nag ar sail arian parod.

5.1.3 Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth

Nid yw'r Bartneriaeth ei hun yn gweithredu nac yn rheoli ei chyfrif banc unigol. Yn ei rôl fel Awdurdod Cynnal, Cyngor Sir Gâr sy'n gweinyddu'r holl drafodion arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ar ran y Bartneriaeth.

5.1.4 Darpariaethau, Asedau Amodol a Rhwymedigaethau

Nid yw'r Bartneriaeth wedi adnabod unrhyw ddarpariaethau, asedau amodol na rhwymedigaethau amodol yn y cyfrifon.

5.1.5 Treth ar Werth (TAW)

Dangosir trafodion net o Dreth ar Werth, rhoddir cyfrif am bob TAW gan Gyngor Sir Gâr.

5.1.6 Buddion Gweithwyr

Mae gweithwyr uniongyrchol sy'n cefnogi gweithgareddau'r Bartneriaeth yn cael eu cyflogi dan gytundeb gan Gyngor Sir Gâr, gyda chefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu gan Sir Gâr ar fethodoleg ail-godi tâl. Datgelir costau cydnabyddiaeth gweithwyr yn Natganiadau Ariannol Cyngor Sir Gâr.

5.2 Buddsoddiadau

Ni ddelir unrhyw fuddsoddiadau yn uniongyrchol gan y Bartneriaeth. Mae'r is-gronfeydd a agorwyd fel rhan o'r trefniant cyfuno yn dod o dan ddatganiadau ariannol y cronfeydd pensiwn priodol. Mae costau'r Gweithredwr a ffioedd eraill sy'n ymwneud â'r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhannu rhwng bob un o'r wyth Cronfa CPLlL yn seiliedig ar eu cyfran ganrannol unigol o asedau'r Bartneriaeth ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o'r Gwerth Net Asedau (GNA). Nid yw'r rhain yn drafodion arian parod.

.

5.3 Dyledwyr Tymor Byr

2020/21 (£)	Disgrifiad	2021/22 (£)
380,854	Awdurdodau Cyfansoddol	499,432
913	Rhagdaliadau	1,885
381,767	**Cyfanswm Dyledwyr Tymor Byr**	**501,316**

5.4 Credydwyr Tymor Byr

2020/21 (£)	Disgrifiad	2021/22 (£)
103,500	Credydwyr Masnach	5,448
90,082	Croniadau	178,762
193,582	**Cyfanswm Credydwyr Tymor Byr**	**184,210**

5.5 Costau Archwilio

Yn 2021/22, roedd y Bartneriaeth yn wynebu'r ffïoedd isod yn ymwneud â'r archwiliad a'r arolwg ariannol, a oedd yn daladwy i Archwilio Cymru.

2020/21 (£)	Disgrifiad	2021/22 (£)
2,590	Ffioedd Archwilio	5,548
2,590	**Cyfanswm Ffioedd Archwilio Allanol**	**5,548**

5.6 Trafodion Partïon Perthnasol

Mae gofyn i'r Bartneriaeth ddatgelu trafodion perthnasol rhwng partneriaid, cyrff, unigolion neu bartïon perthnasol, a allai o bosib ddylanwadu ar benderfyniadau'r CBLl neu gael eu dylanwadu gan y CBLl. Mae gan y Bartneriaeth drefniadau yn eu lle sy'n gofyn i aelodau a Swyddogion adnabod a datgelu trafodion partïon perthnasol. Datgelir ac asesir y buddiannau hyn ar ddechrau pob cyfarfod CBLl.

Bydd angen datgelu unrhyw drafodion rhwng y partïon a amlinellir uchod er mwyn galluogi i ddefnyddwyr y datganiadau Ariannol hyn asesu i ba raddau allai annibyniaeth y CBLl o bosib gael ei effeithio neu ei ddylanwadu gan allu parti arall i drafod gyda'r Pwyllgor.

Yn ystod 2021/22, fel Awdurdod Cynnal y Bartneriaeth, anfonodd Cyngor Sir Gâr anfoneb dyledwr at bob un o'r wyth cronfa bensiwn CPLlL er mwyn adennill costau rhedeg y Bartneriaeth, fel y nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr CIES). Mae'r tablau isod yn dangos cyfanswm gwerth y trafodion a godwyd yn ystod 2021/22 a'r balansau dyledwyr a oedd heb eu talu fel ar 31 Mawrth 2022.

2020/21 £	Disgrifiad	2021/22 £
88,281	Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg	134,689
88,281	Cronfa Bensiwn Clwyd	134,689
88,281	Cronfa Bensiwn Dyfed	134,689
88,281	Cronfa Bensiwn Gwynedd	134,689
88,281	Cronfa Bensiwn Powys	134,689
88,281	Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RhCT)	134,689
88,281	Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe	134,689
88,281	Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)	134,689
706,251*	**Cyfanswm Trafodion Partïon Perthnasol**	**1,077,511***

* Talgryniadau

2020/21 £	Disgrifiad	2021/22 £
52,583	Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg	71,347
52,583	Cronfa Bensiwn Clwyd	71,347
52,583	Cronfa Bensiwn Gwynedd	71,347
52,383	Cronfa Bensiwn Powys	71,347
52,383	Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RhCT)	71,347
65,356	Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe	71,347
52,383	Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)	71,347
380,854	**Trafodion Partïon Perthnasol heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn**	**499,432***

* Talgryniadau

Cododd Cyngor Sir Gâr dâl am weinyddiaeth a gwasanaethau cefnogol yn ystod 2021/22. Mae anfonebau hefyd wedi'u derbyn gan Gyngor Gwynedd am wasanaethau a ddarparwyd ganddynt ar ffurf gwasanaethau cyfieithu. Mae'r tabl isod yn dangos gwerth y gwasanaethau hynny a'r balansau dyledwyr a oedd heb eu talu fel ar 31 Mawrth 2022.

Trafodion Partïon Perthnasol - Credydwyr	Gwerth gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod 2021/22 £	Balans heb ei dalu fel ar 31 Mawrth 2022 £
Cyngor Sir Gâr	147,226	0
Cyngor Gwynedd	6,089	1,783
Cyfanswm	**153,315**	**1,783**

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Swyddog Monitro yn Uwch Swyddogion o fewn Cyngor Sir Gâr.

5.7 Addasiad Cyfnod Blaenorol

Ni wnaed unrhyw addasiadau Cyfnod Blaenorol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

6 RHESTR TERMAU

Mae'r adran isod yn ceisio egluro ystyr rhai o'r gwahanol dermau technegol a ddefnyddir yn y Datganiadau.

Croniadau
Swm a ddangosir yn ein cyfrifon i dalu am incwm neu wariant ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu na dalwyd ar ddyddiad y fantolen yw croniadau.

Archwiliad
Arolwg annibynnol o'n gweithgareddau yw archwiliad.

Balans
Gwarged neu ddiffyg unrhyw gyfrif ar unrhyw adeg.

Mantolen
Dyma ddatganiad o'n hasedau, rhwymedigaethau a balansau eraill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cyllideb
Cynllun gwario yw cyllideb, fel arfer ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol.

Credydwr
Credydwr yw rhywun sydd ag arian yn ddyledus iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gafwyd.

Asedau Cyfredol
Dyma asedau tymor byr sydd ar gael i ni eu defnyddio yn y flwyddyn gyfrifyddu ddilynol.

Rhwymedigaethau Cyfredol
Dyma rwymedigaethau tymor byr sydd angen eu talu gennym yn y flwyddyn gyfrifyddu ddilynol.

Dyledwr
Dyledwr yw rhywun sydd mewn dyled ariannol i ni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Blwyddyn Ariannol
Dyma'r cyfnod cyfrifyddu. Mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol i'r pwyllgor hwn.

Gwariant Gros
Cyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod Cynnal cyn ystyried unrhyw incwm a dderbyniwyd.

Rhwymedigaeth
Rhwymedigaeth yw swm sy'n ddyledus a thaladwy ar ryw adeg yn y dyfodol.

Rhagdaliad
Rhagdaliad yw taliad a wnaed o flaen llaw, taliad sy'n ymwneud â chyfrif cyfrifyddu yn y dyfodol.

Darpariaeth
Darpariaethau yw symiau a roddir o'r neilltu ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion sy'n debygol neu'n sicr o gael eu hachosi, ond mae'r symiau neu'r dyddiadau pan fyddant yn codi yn ansicr.

Amrywiant
Y gwahaniaeth rhwng gwir wariant a chyllideb - dangosir hyn mewn arian parod neu dermau canrannol.

Archwilio Cymru
Corff annibynnol a arweinir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am benodi archwilwyr allanol i awdurdodau lleol.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

DYDDIAD 8 GORFFENNAF 2022

PWNC DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA
ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN: **Derbyn diweddariad gan yr awdurdod lletya**
RHESYMAU: Yr awdurdod lletya i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â’r meysydd allweddol a ganlyn: • Llywodraethu • Sefydlu parhaus • Gwasanaethau gweithredwr • Cyfathrebu ac adrodd • Hyfforddiant a chyfarfodydd • Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Awdur yr Adroddiad: **Chris Moore**	**Swydd:** Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Caerfyrddin**	**Rhif Ffôn: 01267 224160** **E-bost:** **CMoore@sirgar.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 8 GORFFENNAF 2022

DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD
 	
Cymeradwywyd Cynllun Busnes PPC 2021/22 ar 24 Mawrth 2021. Atodir diweddariad i Chwarter 4 (1 Ionawr i 31 Mawrth 2022) sy'n dangos cynnydd PPC o ran adrannau'r Cynllun Gwaith, y Gyllideb a'r Buddsoddiadau.
 	
Mae gwaith wedi parhau i gael ei ddatblygu mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:
• Cwblhau cau cyfrifon diwedd blwyddyn 2021/22
• Polisiau Newydd a Adolygiadau
• Proses gaffael Dyranwyr Marchnadoedd Preifat
• Is-grwpiau'r Gweithgor Swyddogion:
  o Is-grŵp Marchnadoedd Preifat
  o Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol
  o Is-grŵp Cofrestr Risg
 	
Camau nesaf / Blaenoriaethau:
• Datblygu Is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat:
  o Mawrth 2022 - Rhagfyr 2022 – datblygu, cymeradwyo a lansio'r is-gronfeydd Dyled Breifat a Seilwaith
  o 21 Medi 2022 - CBLl i gymeradwyo penodiad Dyrannwr Ecwiti Preifat
• Contract Gweithredwr – proses gaffael
  o Daw'r contract presennol i ben fis Rhagfyr 2024
  o Wedi dechrau trafodaethau gyda Burges Salmon ynghylch gofynion cyfreithiol
  o Rhoi amserlen yn ei lle
• Ffurfio Adroddiad Blynyddol ac Enillion Blynyddol 2021/22
• Lansio'r Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
 	
Meysydd allweddol eraill:
• Hyfforddiant – sesiynau hyfforddiant yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir

• Gwefan – mae newyddion a chyhoeddiadau perthnasol yn parhau i gael eu rhoi ar y wefan

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Bydd y dogfennau polisi a gweithdrefnau yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgyngoriadau a gynhaliwyd yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth **Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:** **MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cynllun Busnes

2021 -2022

Adolygiad Ch4

Llywodraethu

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
• Penodi Cynrychiolydd o Aelodau'r Cynllun i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu	Do	
• Datblygu Polisi Ail-gydbwyso ac Addasu i'r Bartneriaeth	Do	
• Llunio Matrics Cyfrifoldebau i Is-gronfeydd y Bartneriaeth	Do	
• Datblygu Polisi Canu'r Gloch y Bartneriaeth	Yn mynd rhagddo	I'w gyflwyno i CBLl Gorffennaf 2022 am gymeradwyaeth
• Datblygu 'Adroddiadau Rhestr Wirio Cyn Cymeradwyo' i Is-gronfeydd y Bartneriaeth	Do	
• Datblygu Cynllun Parhad Busnes y Bartneriaeth	Yn mynd rhagddo	I'w gyflwyno i CGLl Gorffennaf 2022 am gymeradwyaeth
• Datblygu Cynllun Parhad Busnes y Bartneriaeth	Do	
• Adolygiad blynyddol o bolisïau a chynlluniau'r Bartneriaeth	Do	
• Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg	Do	

Sefydlu Parhaus

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
• Lansio'r Is-gronfa Marchnadoedd Datblygol	Do	Lansiwyd 20 Hydref 2021
• Lansio'r Is-gronfeydd Dyled ac Isadeiledd Preifat		Dyddiad lansio wedi'i ohirio tan 2022-23
• Llunio gofynion Eiddo'r Bartneriaeth a'r modd gorau i'w gweithredu	Yn mynd rhagddo	Mae trafodaethau cychwynnol wedi digwydd, caiff y gofynion eu cwblhau'n derfynol yn 2022/23
• Ymgynghori â'r AC ar yr angen am is-gronfeydd eraill	Yn Parhau	

Gwasanaethau Gweithredwr

Gwaith I'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
• Fframwaith Trosolwg Gweithredwr i'r Bartneriaeth	Do	
• Adolygu contract y Gweithredwr	Do	
• Adolygu adroddiadau ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Gweithredwr	Do	
• Adolygu'r Farchnad yn ôl datblygiadau ym maes y Gweithredwr	Do	
• Sefydlu a gweithredu fframwaith ar gyfer monitro perfformiad Russell Investments fel ymgynghorwyr buddsoddiadau Link	Do	

Cyfathrebu, Hyfforddi ac Adrodd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
• Llunio Adroddiad Cynnydd Blynyddol y Bartneriaeth ar Fuddsoddi Cyfrifol	Do	
• Llunio cynllun hyfforddi blynyddol y Bartneriaeth	Do	
• Llunio Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth	Do	Cyhoeddwyd Diweddariad Blynyddol 2020/21 ym mis Mehefin 2021
• Llunio Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth	Do	Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2020/21 ym mis Hydref 2021

Buddsoddiadau ac Adrodd Arnynt

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
• Datblygu adroddiadau perfformiad y Rheolwr Buddsoddiadau, gan gynnwys metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a risg newid hinsawdd	Do	
• Cwblhau'r Gofynion Adrodd ar Bleidleisio ac Ymgysylltu yn derfynol	Yn mynd rhagddo	Mae’r is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol yn edrych ar hwn ar hyn o bryd
• Dod yn llofnodwr i'r UK Stewardship Code	Do	
• Llunio Blaenoriaethau Ymgysylltu'r Bartneriaeth a'i Fframwaith Gweithredu.	Yn mynd rhagddo	Yn trafod themâu ymgysylltu gyda Robeco
• Adolygu pa mor gydnaws yw Meincnodau Is-gronfeydd y Bartneriaeth gyda'i Chredoau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd	Yn Parhau	
• Adolygiad blynyddol o Ofynion Tryloywder Costau'r Bartneriaeth	Do	
• Cynnal ymarfer meincnodi marchnad pob blwyddyn ar Is-gronfa Perfformiad Buddsoddi'r Bartneriaeth	Do	
• Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch safonau gofynnol ESG/RI a'u dyheadau hinsawdd	Yn Parhau	

Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
• Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu	Do	
• Llunio Cyllideb Flynyddol y Bartneriaeth	Do	
• Adolygu a Monitro Ffïoedd (gan gynnwys Link a Russell)	Do	

Cynllun Hyfforddi

Pynciau hyfforddi i gael eu cwblhau yn ystod 2021-2022 yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yng Nghynllun Hyfforddiant 2021-2022 a'r cynnydd hyd yma.

	Cwblhawyd	**Sylwadau**
• Marchnad Breifat – Dosbarthiadau Asedau a Gweithrediad	Do – Ebrill 2021	
• Marchnad Breifat – Gorchuddion Cronfa a Llywodraethu	Do – Ebrill 2021	
• Mynegai a Datrysiadau Buddsoddi Cyfrifol	Do – Gorffennaf 2021	
• Adrodd am Fuddsoddi Cyfrifol	Do – Gorffennaf 2021	
• Adrodd ar Berfformiad a Meincnodi Rheolwyr	Do – Hydref 2021	
• Rolau a Chyfrifoldebau yn yr ACS	Do – Hydref 2021	
• Llywodraethu Da	Do – Mawrth 2022	
• Tryloywder Costau	Do – Mawrth 2022	
• Cynnydd CCPL Leol eraill a gyfunwyd	Do – Ionawr 2022	
• Cyfleoedd i Gydweithio	Do – Ionawr 2022	

Ym mis Chwefror 2022, fe wnaethom gynnal sesiwn hyfforddi ychwanegol hefyd ar Fuddsoddi Cyfrifol

Mae'r holl hyfforddiant uchod sydd wedi'i gynnal hyd yn hyn wedi cael ei ymestyn i gynnwys aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau ac mae pob sesiwn hyfforddiant wedi cael ei chynnal yn rhithiol.

Cyllideb

Adroddiad Monitro Cyllideb 2021-2022:

	Cyllideb 2021 - 2022 £000	**Rhagolwg 2021 - 2022 £000**	**Amrywiant 2021 - 2022 £000**
Awdurdod Lletya *	182	162	20
Ymgynghorwyr Allanol *	680	915	(235)
CYFANSWM i'w ail-godi	**862**	**1,078**	**(216)**
Gwasanaethau Gweithredwr **	28,447	31,643	(3,196)
CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau	**28,447**	**31,643**	**(3,196)**

**Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o'r wyth o Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

***Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth (sydd ym meddiant y Gweithredwr) ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol (sydd ym meddiant y Gweithredwr).*

Is-gronfeydd Ecwiti

- ***Cronfa Twf Byd-eang***
  Rheolir gan: Link
  Gwerth y Portffolio: £2 biliwn
- ***Cronfa Cyfleoedd Byd-eang***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £2 biliwn
- ***Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Unedig***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn
- ***Cronfa Marchnadoedd Datblygol***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn

Is-gronfeydd Incwm Sefydlog

- ***Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.4 biliwn
- ***Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn
- ***Cronfa Credyd Aml-ased***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn
- ***Cronfa Credyd Byd-Eang***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.8 biliwn
- ***Cronfa Credyd y Deyrnas Unedig***
  Rheolir gan: Link
  Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn

Partneriaeth Pensiwn Cymru

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 8 GORFFENNAF 2022

PWNC ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 2 2022
ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN: **Cymeradwyo'r diwygiadau i Gofrestr Risg PPC**
RHESYMAU: Crëwyd a chymeradwywyd Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad chwarterol o'r gofrestr, gan edrych ar yr ail hanner o'r adran Llywodraethu a Rheoleiddio, risgiau G.7 i G.14.

Awdur yr Adroddiad:	**Swydd:**	**Rhif Ffôn: 01267 224160**
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**E-bost:** **CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 8 GORFFENNAF 2022

ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 2 2022

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae PPC wedi creu Cofrestr Risg, sef y modd y mae risgiau yn cael eu dogfennu, eu rheoli a'u monitro. Pwrpas Cofrestr Risg y PPC yw:

- Amlinellu risgiau a ffactorau allweddol PPC a allai gyfyngu ar ei allu i gwrdd â'i amcanion
- Meintoli difrifoldeb a tebygolrwydd y risg sy'n wynebu PPC
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg PPC
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyn am strategaethau lliniaru risg pellach

Cymeradwywyd y Gofrestr Risg wreiddiol gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Y GS sy'n gyfrifol am gynnal a chadw Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLl yn chwarterol.

Yn ystod y chwarter diwethaf, cynhaliwyd adolygiad o'r risgiau o fewn adran Llywodraethu a Rheoleiddio y Gofrestr Risg, risgiau G.7 i G.14. Mae'r daflen sydd ynghlwm yn rhoi crynodeb o ddeilliannau adolygu pob risg.

Mae gan y GS Is-grŵp Risg PPC penodol i gymryd perchnogaeth o Gofrestr Risg PPC ac adolygiad chwarterol y ddogfen hon. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch3 2022 a bydd yn canolbwyntio ar Risgiau Hyfforddiant ac Adnoddau a Risgiau Cyfathrebu.

.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn: MANYLIR AR Y RHAIN ISOD		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN**

Risg Llywodraethu a Rheoliadau

Manylion y Risg					Sefyllfa bresennol	Sgorio			Rheoli a Monitro			
	Risg a Natur y Risg	Achos y Risg	Goblygiadau'r Risg	Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith	Rheolaethau Risg Presennol	Difrifoldeb	Tebygolrwydd	Sgôr	Statws Presennol	Camau Gofynnol	Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu	Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau
G.7	Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gallu gweithredu'n effeithlon neu gyflawni ei dyletswyddau oherwydd digwyddiadau na ellir eu rheoli.	•Nid yw personél Partneriaeth Pensiwn Cymru a/neu gyflenwyr allweddol yn gallu gwneud gwaith oherwydd tân, tywydd eithafol, epidemigion. •System allweddol, systemau TG, dulliau a phyrth cyfathrebu yn methu.	Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gallu gweithio'n effeithlon, nid yw gwaith gofynnol wedi'i gwblhau, ni ellir gwneud penderfyniadau allweddol. Colled ariannol posibl i asedau a ddelir o fewn y bartneriaeth. Hefyd, risg bosibl i enw da neu atgyfeiriad i Fwrdd Cynghori'r Cynllun, y Rheoleiddiwr Pensiynau neu'r DLUHC.	Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru / Cyflenwyr a Chynghorwyr	•Mae gan yr Awdurdod sy'n Lletya gynllun parhad busnes / adfer ar ôl trychineb ar waith •Gall y rhan fwyaf o bersonél a chynghorwyr weithio o bell •Mecanweithiau cyfathrebu niferus ar waith •Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'u lleoli ar draws sawl lleoliad daearyddol •Mae gan yr Awdurdodau Cyfansoddol eu polisïau, cynllun a gweithdrefnau lleol eu hunain ar gyfer adfer ar ôl trychineb.	Presennol 4	2	8		Mae gan yr Awdurdodau Cyfansoddol eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer adfer ar ôl trychineb, fodd bynnag bydd PPC yn llunio Cynllun Adfer ar ôl Trychineb PPC, a bydd gweithdrefnau presennol yr Awdurdod Lletya a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn dylanwadu'n drwm arno. Bydd yr Awdurdod Lletya hefyd yn gofyn i gyflenwyr allweddol PPC am eu cynlluniau adfer ar ôl trychineb er mwyn sicrhau bod ganddynt weithdrefnau digonol hefyd.	Awdurdod Lletya	Mae Cynllun Adfer Trychineb PPC (Cynllun Parhad Busnes) ar waith a chaiff ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ar 8 Gorffennaf 2022.
	Ariannol / Enw Da			Byrdymor		Targed 4	2	8			Ch2 2023	
G.8	Trefniadau llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn arwain at reoli a gwneud penderfyniadau aneffeithlon.	•Methiant i gymryd canllawiau perthnasol i ystyriaeth o ran llywodraethu da / arfer gorau. •Anallu i ddilyn strwythur a phrotocolau llywodraethu presennol. •Dyletswyddau ac adnoddau yn cael eu dirprwyo yn aneffeithlon. •Nid yw'r strwythur llywodraethu yn caniatáu amser/adnoddau digonol a thrafodaeth am benderfyniadau a materion allweddol.	Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gallu gweithio'n effeithlon, nid yw gwaith gofynnol yn cael ei gwblhau, ni ellir gwneud penderfyniadau allweddol. Colled ariannol posibl i asedau a ddelir o fewn y bartneriaeth. Hefyd, risg bosibl i enw da neu atgyfeiriad i Fwrdd Cynghori'r Cynllun, y Rheoleiddiwr Pensiynau neu'r DLUHC.	Gweithgor Swyddogion / Cydbwyllgor Llywodraethu / Cynghorydd Goruchwylio	•Strwythur llywodraethu ar waith ac wedi'i godeiddio yn y Cytundeb Rhyng-awdurdod •Defnydd o strwythur llywodraethu haenog i gynorthwyo wrth flaenoriaethu penderfyniadau allweddol •Cynghorydd Goruchwylio ar gael i gynnig cyngor ar strwythur llywodraethu •Ymgysylltu â chyrff perthnasol ar ganllawiau llywodraethu da ac arfer gorau •Asesiad adnoddau blynyddol i sicrhau y gellir cydymffurfio â'r strwythur llywodraethu •Adolygiad parhaus o'r strwythur llywodraethu • Mae gan PPC fatrics llywodraethu mewn lle sy'n amlinellu'n glir y gwahanol rolau a chyfrifoldebau am wneud penderfyniadau o fewn y Bartneriaeth • Mae Canllaw Llywodraethu PPC yn amlinellu trefniadau llywodraethu PPC, a chaiff y ddogfen hon ei hadolygu'n barhaus i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth yn parhau i fod yn addas i bwrpas • Mae gan holl weithgorau neu gyrff gwneud-penderfyniadau allweddol PPC eu cylch gorchwyl eu hunain • Mae Cytundeb Rhwng Awdurdod y Bartneriaeth, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol, yn rhoi manylion helaeth ynghylch trefniadau llywodraethu PPC • Mae strwythur llywodraethu PPC yn canolbwyntio ar roi pwerau gwneud penderfyniadau i'r Awdurdodau Cyfansoddol, gyda'r nod o sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion a gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol.	Presennol 4	1	4		Nawr bod y newidiadau y Gytundeb Rhwng Awdurdod wedi dod i rym, bydd PPC yn asesu p'un a yw'r newidiadau wedi arwain at unrhyw aneffeithlonrwydd tymor byr neu hirdymor, ac os na chaiff unrhyw aneffeithlonrwydd ei adnabod, bydd PPC yn gostwng y sgôr risg gyfredol i 4.	Cynghorydd Goruchwylio	Mae IAA bellach wedi'i adolygu ac mae hyn wedi arwain at fân newidiadau i'r geiriad. Cynrychiolydd Aelodau PPC bellach yn ei le ar y Cydbwyllgor Llywodraethu. Mae'r sgôr tebygolrwydd wedi'i adolygu i lawr i 1 yn awr gan fod y camau hyn wedi'u cymryd sy'n arwain at sgôr risg gyfredol o 4, yn unol â'r targed.
	Gweithredol / Enw Da / Ariannol			Hirdymor		Targed 4	1	4			Ch2 2023	
G.9	Ni ellir cysoni gwahaniaethau barn neu safbwyntiau o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru.	• Ni all gwahanol gyrff gwneud penderfyniadau ddod i gytundeb. Buddiannau a blaenoriaethau Awdurdodau Cyfansoddol yn gwrthdaro. •Nid yw'r strwythur llywodraethu yn darparu mecanwaith neu fforwm lle gellir cysoni safbwyntiau a gwahaniaethau. • Nifer y bobl sy'n gwneud pendefyniadau / cynnig barn yn is-optimaidd	Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gallu cytuno ar benderfyniadau allweddol, gan arwain at oediadau, aneffeithlonrwydd, a dieithrwch neu chwalfa rhanddeiliaid. Colled ariannol posibl i asedau a ddelir o fewn y bartneriaeth a/neu risg i enw da.	Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru / Cyflenwyr a Chynghorwyr	•Lefelau uchel o gyfathrebu rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (a'r Awdurdodau Cyfansoddol) •Set wedi'i godio o amcanion a chredoau cytunedig/unedig PPC •Cyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu, a chyfarfodydd ad hoc os oes eu hangen, i hwyluso'r broses o rannu a chysoni safbwyntiau •Cynghorydd Goruchwylio ar gael i gynnig cyngor ar strwythur llywodraethu •Ymgysylltu â chyrff perthnasol ar ganllawiau llywodraethu da ac arfer gorau •Adolygiad parhaus o'r strwythur llywodraethu •Proses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau ar waith •Proses uwchgyfeirio eglur ar waith i gael cydsyniad os na ellir dod i gytundeb cilyddol	Presennol 5	3	15		Mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol bod Hinsawdd Risg a Buddsoddi Cyfrifol yn faes sy'n esblygu'n gyson ac yn gyflym a bod gofynion/anghenion yr Awdurdodau Cyfansoddol, o'r herwydd, yn newid yn sylweddol ac yn aml. Mae PPC yn ceisio gostwng y tebygolrwydd y bydd y risg hwn yn digwydd drwy gynyddu ei lefelau ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae PPC wedi ymrwymo i gynnal ymarfer Ymgynghori Blynyddol gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch Hinsawdd Risg/ Buddsoddi Cyfrifol.Mae'r Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC yn cyfarfod bob 6 wythnos, ac sy'n cynnwys o leiaf un cynrychiolydd o bob Awdurdod Cyfansoddol. Bydd PPC yn adolygu p'un a yw'r ddau fesur lliniaru ychwanegol yma wedi bod yn effeithiol cyn ystyried a ddylid gostwng y tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd i 2.	Gweithgor Swyddogion	Nid oes newidiadau wedi'u gwneud i'r camau gweithredu gofynnol na'r sgôr risg gan fod gwaith i'w wneud ar y maes hwn o hyd.
	Gweithredol / Enw Da / Ariannol			Tymor Canolig		Targed 5	2	10			Ch2 2023	
G.10	Cyflenwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyflawni eu hymrwymiadau contractiol.	•Diffyg fframwaith monitro cyflenwyr addas. •Cystadleuaeth annigonol ymhlith cyflenwyr. •Cytunwyd ar delerau contractiol anaddas / na ellir eu cyflawni. •Cyfathrebu gwael â chyflenwyr ar ofynion a disgwyliadau Partneriaeth Pensiwn Cymru.	Gwaith sydd ar y gweill gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddim yn cael ei gwblhau neu'n cael ei oedi. Nid yw gofynion rhanddeiliaid y bartneriaeth yn cael eu diwallu. Mae'r bartneriaeth yn gwneud penderfyniadau amhriodol a allai arwain at golled ariannol, aneffeithlonrwydd, risg i enw da	Cynghorydd Goruchwylio / Gweithgor Swyddogion	•Cynghorydd Cyfreithiol ar gael i adolygu telerau ac ymrwymiadau contractiol •Cyfarfodydd darparu gwasanaethau rheolaidd yn cael eu cynnal •Ymarferion caffael ac ailbenodi rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau cystadleuaeth •Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llunio contractau sydd â saib neu bwyntiau ymadael naturiol a ffioedd ymadael isel • Mae gan y Bartneriaeth restr fer o gyflenwyr eraill sydd ag enw	Presennol 4	2	8		Amh.	Gweithgor Swyddogion	Amh.
						Targed						

	Gweithredol / Enw Da / Ariannol		aneffeithlonrwydd, risg i enw da.	Tymor Canolig	Bartneriaeth restr fer o gyflenwyr eraill sydd ag enw da, drwy Lotiau Fframwaith Cenedlaethol y CPLlL, a gallai'r cyflenwyr hyn gamu i mewn petai angen. • Mae gan yr Awdurdod Lletya arbenigedd mewn rheoli contract a perthnasau	4	2	8			Ch2 2023	
G.11	Cyflenwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â gweithredu penderfyniadau'r bartneriaeth yn brydlon ac yn effeithiol.	•Cyfathrebu gwael gyda chyflenwyr am ofynion a disgwyliadau Partneriaeth Pensiwn Cymru. •Diffyg adnoddau gan gyflenwyr. •Mae gan gyflenwyr perthnasol flaenoriaethau sy'n eu gorlethu a/neu'n gwrthdaro. •Diffyg ymgysylltiad neu bresenoldeb gan gyflenwyr perthnasol. •Nid yw penderfyniadau a wneir yn cael eu gweithredu yn brydlon.	Nid yw gwaith sydd ar y gweill gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei gwblhau neu mae'n cael ei oedi, a allai arwain at golled ariannol neu aneffeithlonrwydd. Nid yw gofynion rhanddeiliaid y bartneriaeth yn cael eu bodloni.	Cynghorydd Goruchwylio / Gweithgor Swyddogion	•Cynhelir cyfarfodydd darparu gwasanaeth rheolaidd •Cynhelir ymarferion caffael ac ailbenodi rheolaidd i sicrhau cystadleuaeth •Cynghorydd Goruchwylio dynodedig ar gael •Protocolau ymgysylltu dwys gyda chyflenwyr perthnasol • Mae'r cyfarfod Ymarferwyr PPC misol yn fforwm ar gyfer codi unrhyw bryderon ac wedyn eu huchafu ar lefel y Pŵl • Mae ychwanegiad yr is-grwpiau i drefniadau llywodraethu PPC wedi creu fforymau ychwanegol lle mae gan y Bartneriaeth fwy o amser i herio a dilyn i fyny gyda chyflenwyr	Presennol				Bu cynnydd yn y maes hwn, ond bydd y WPP yn parhau i fonitro perfformiad cyflenwyr er mwyn sicrhau ymatebion amserol i ymholiadau a bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.	Gweithgor Swyddogion a'r Cynghorydd Goruchwylio	PPC yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r holl gyflenwyr ac yn monitro perfformiad yn barhaus. Mae cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn ac o ganlyniad mae'r sgôr tebygolrwydd wedi'i adolygu i lawr i 2, sy'n arwain at sgôr risg o 8, yn unol â'r targed.
						4	2	8				
	Gweithredol / Ariannol			Tymor Canolig		Targed					Ch2 2023	
						4	2	8				
G.12	Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau contractiol neu'n rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau Gweithredwr oherwydd ymadael â'r farchnad neu gyfyngiadau rheoleiddio.	•Nid oes gan y Gweithredwr adnoddau digonol. •Nid yw'r Gweithredwr yn rhoi systemau adrodd ar berfformiad/risg digonol ar waith. •Nid oes gan y Gweithredwr yr adnoddau/arbenigedd i wneud gwaith monitro rheolwyr, i gynnal negodiadau ffioedd, ac i hwyluso cerbydau a gwasanaethau sefydlu. •Nid yw'r Gweithredwr yn rhoi mesurau cadw cydbwysedd digonol ar waith i sicrhau cydymffurfiad â'r holl reoliadau perthnasol. •Nid yw'r gallu na'r gymeradwyaeth reoleiddio gan y Gweithredwr i ddarparu gwasanaethau Adneuo a Gwarchodaeth (trwy'r Cynllun Contractiol Awdurdodedig). •Monitro annigonol o endidau a benodwyd i weinyddu cronfeydd ac asiantaeth drosglwyddo (Northern Trust). •Mae'r Gweithredwr yn methu â gweithredu rheoli risg priodol, gan gynnwys: polisi, gweithdrefnau a strategaethau lliniaru rheoli risg. •Nid oes gan y Gweithredwr adnoddau digonol i ddarparu gwaith rheoli perthynas a darparu gwasanaeth digonol.	Mae asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru a ddelir yng Nghynllun Contractiol Awdurdodedig y Gweithredwr yn cael eu rhoi mewn perygl. Mae nifer o gontractau'r bartneriaeth yn cael eu torri, gan fod y rhain yn cael eu gorfodi drwy'r Gweithredwr ar hyn o bryd. Nid yw'r bartneriaeth yn gallu gweithio'n effeithlon, nid yw gwaith gofynnol yn cael ei gwblhau, ni ellir rheoli neu lansio is-gronfeydd.	Cynghorydd Goruchwylio / Awdurdod Lletya / Gweithgor Swyddogion / Cynghorydd Cyfreithiol	•Cynghorydd Goruchwylio Gweithredwr dynodedig ar gael •Protocolau ymgysylltu dwys gyda'r Gweithredwr •Fframwaith Goruchwylio Gweithredwr wrthi'n cael ei ddatblygu •Ymgysylltiad â'r farchnad Gweithredwyr ehangach (a chyflenwyr addas eraill) yn cael ei gynnwys yng ngynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru •Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llunio contractau sydd â saib neu bwyntiau ymadael naturiol a ffioedd ymadael isel • Mae PPC wedi sefydlu Cynllun Gwaith Gweithredwr er mwyn monitro'r gwahanol ffrydiau gwaith mewn perthynas â Goruchwylio'r Gweithredwr. • Mae'r FCA yn cadw rhestr o Weithredwyr ACS eraill a allai gamu i mewn petai Gweithredwr PPC yn gadael y farchnad.	Presennol				Mae'r Gweithgor Swyddogion yn parhau i fonitro unrhyw ddatblygiadau sy'n codi o adolygiad yr FCA o'r farchnad Gweithredwr ACS. Mae'r Gweithgor Swyddogion yn cydnabod bod hyn yn straen ar adnoddau'r Gweithredwr. Mae'r Awdurdod Lletya, gyda chymorth gan ei Ymgynghorydd Goruchwylio'r Gweithredwr, yn parhau i gael cyfarfodydd adolygu rheolaidd gyda'r Gweithredwr. Y prif ffrwd gwaith sy'n cael ei datblygu yn ystod y cyfarfodydd adolygu hyn yw llunio Pecyn estynedig o Adrodd Gwybodaeth gan Reolwyr y Gweithredwr.	Gweithgor Swyddogion	Bydd y GS yn parhau i ofyn i'r Gweithredwr am ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd Weithredu'r Cynllun y mae Deed Link Group wedi ymrwymo iddo gyda Dye & Durham i gaffael y sefydliad Mae nifer o weithwyr allweddol Link wedi ymddiswyddo a byddant yn gadael y cwmni yn fuan. Mae'r rhain yn cynnwys y Rheolwr Perthnasau, Eamonn Gough. Mae wedi'i ddisodli gan rywun profiadol ac mae'r gweithgareddau trosglwyddo yn mynd rhagddynt. Mae'r risg hon yn parhau'n sylweddol a bydd yr holl fesurau lliniaru cyfredol yn parhau. Caiff mesurau lliniaru eraill eu hystyried os ystyrir eu bod yn angenrheidiol.
						5	3	15				
	Ariannol / Gweithredol			Byrdymor		Targed					Ch2 2023	
						5	2	10				
G.13	Data cyfrinachol / masnachol sensitif PPC yn cael ei ryddhau, ei ddwyn neu ei gamleoli.	•Diffyg gweithdrefnau digonol. •Gwybodaeth annigonol o arfer orau •Diffyg systemau addas a datrysiadau TG i hwyluso a chynorthwyo gyda storio a chynnal data cyfrinachol/masnachol sensitif • Camddealltwriaeth a yw darn o wybodaeth yn gyfrinachol / masnachol sensitif • Ddim yn datgan yn glir pa gynulleidfa gaiff weld data cyfrinachol / masnachol sensitif penodol • Methiant i labelu'n glir bod gwybodaeth yn gyfrinachol / masnachol sensitif	Mae PPC yn wynebu colledion ariannol os yw partion allanol eraill yn gweithredu ar ddata na ddylent ei weld na chael mynediad ato. Mae risg hefyd y byddai tor-data fel hyn yn arwain at roi enw drwg i'r Bartneriaeth.	GS/Awdurdodau Cyfansoddol	•Hyfforddiant parhaus •Lefel addas o arbenigedd ar gael gan yr Awdurdod Lletya • PPC yn gofyn ac yn gwirio pa weithdrefnau a mesurau diogelwch sydd gan yr AC mewn lle ar lefel lleol • Bydd PPC yn marcio'n glir dogfennau/e-byst a deunyddiau eraill sy'n cynnwys data cyfrinachol/masnachol sensitif • Wrth ymdrin â data cyfrinachol/masnachol sensitif, caiff dulliau addas, diogel o rannu gwybodaeth eu defnyddio • Mae'r arfer o rannu a dosbarthu data cyfrinachol/masnachol sensitif yn cael ei gyfyngu ym mhob achos, a chaiff ei rannu dim ond os yw hynny'n gwbl angenrheidiol • Mae ymgynghorwyr a darparwyr allanol yn gwybod am y mater hwn a disgwylir iddynt ddilyn gweithdrefnau'r Bartneriaeth ei hun mewn perthynas â'r mater	Presennol				Amh.	Gweithgor Swyddogion	Amh.
						5	2	10				
	Ariannol / Enw Da			Tymor Canolig		Targed					Ch2 2023	
						5	2	10				
G.14	PPC yn methu ag adnabod a chymryd mesurau i gywiro camymarfer	•Methiant i annog diwylliant o fod yn agored, lle mae personel yn teimlo'n gyfforddus yn tynnu sylw at unrhyw achosion posib o gamymarfer •Peidio bod â mecanweithiau addas mewn lle i amddiffyn unrhyw aelod o staff, sy'n adrodd am broblem bosib, rhag erledigaeth neu erlyn yn annheg •Analluu i roi Polisi Canu'r Gloch effeithiol ar waith, a chadw at y polisi. •Diffyg gweithdrefnau digonol •Gwybodaeth annigonol o arfer orau •Mecanweithiau cyfathrebu gwael neu annigonol •Peidio rhoi digon o amser neu adnoddau i ymchwilio i gamymarfer posib	Mae PPC yn cael ei heffeithio'n negyddol gan gamymarfer a allai gynnwys twyll, llygredd, gweithgareddau anghyfreithlon neu ymddygiad anfoesol. Gallai'r camymarfer arwain at golledion ariannol, dirwyon, achos cyfreithiol neu effeithiau negyddol ar enw da.	Personel/Cyflenwyr ac Ymgynghorwyr PPC	• Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu fframwaith llywodraethu sydd â nifer o wiriadau a balansau a ddyluniwyd i gyfyngu'r potensial i gamymarfer ddigwydd • Mae sawl dull cyfathrebu ar waith o fewn y Bartneriaeth, gyda'r bwriad o annog rhannu gwybodaeth a'r gallu i dynnu sylw at unrhyw bryderon posib • Mae swyddog monitro yn yr Awdurdod Lletya • Mae gan PPC Bolisi Gwrthdaro Buddiannau	Presennol				Bydd PPC yn: •Llunio gweithdrefn i sicrhau bod gan Bersonel y gallu a'r modd i dynnu sylw at unrhyw bryderon ynghylch camymarfer posib •Llunio Polisi Canu'r Gloch wedi'i godio sy'n amlinellu sut bydd PPC yn amddiffyn unrhyw un sy'n 'canu'r gloch', tra'n sicrhau'r unigolyn nad yw eu diogelwch swydd mewn unrhyw berygl o ganlyniad i dynnu sylw/amlygu camymarfer posib •Darparu hyfforddiant parhaus ar adnabod camymarfer a sut i godi pryderon yn ddiogel ynghylch camymarfer posib •Sicrhau bod digon o adnoddau ac arbenigedd ar gael i ymchwilio i ac ymdrin ag unrhyw achosion posib o gamymarfer •Parhau i annog amgylchedd lle caiff yr holl staff eu hannog i siarad yn rhydd ac yn agored	Gweithgor Swyddogion	Mae polisi chwythu'r chwiban PPC ar waith a chaiff ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ar 8 Gorffennaf 2022. Caiff y gyfradd risg ei hadolygu yn yr adolygiad ffurfiol nesaf yn Ch2 2023.
						5	2	10				
	Ariannol / Enw Da			Byrdymor		Targed					Ch2 2023	
						5	1	5				

Risg	Ffocws y Risg	Targed Sgôr y Risg	Sgôr Risg Cyfredol	Statws Presennol	Corff Cyfrifol	Sylwadau
G.7	Nid yw'r PPC yn medru gweithredu'r effeithlon nac ymgymryd â'i dyletswyddau yn sgil digwyddiadau na ellir eu rheoli.	8	8		HA	• Mae Cynllun Adfer Trychineb PPC (Cynllun Parhad Busnes) ar waith a chaiff ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ar 8 Gorffennaf 2022.
G.8	Trefniadau llywodraethu'r PPC yn arwain at reolaeth a phenderfyniadau aneffeithlon.	4	4		Ymgynghorydd Trosolwg	• Mae IAA bellach wedi'i adolygu ac mae hyn wedi arwain at fân newidiadau i'r geiriad. Cynrychiolydd Aelodau PPC bellach yn ei le ar y Cydbwyllgor Llywodraethu. Mae'r sgôr tebygolrwydd wedi'i adolygu i lawr i 1 yn awr gan fod y camau hyn wedi'u cymryd sy'n arwain at sgôr risg gyfredol o 4, yn unol â'r targed.
G.9	Gwahaniaeth barn / safbwyntiau o fewn y PPC na ellir eu cysoni.	10	15		GS	• Nid oes newidiadau wedi'u gwneud i'r camau gweithredu gofynnol na'r sgôr risg gan fod gwaith i'w wneud ar y maes hwn o hyd.
G.10	Cyflenwyr PPC yn methu â chyflawni eu hymrwymiadau contractiol.	8	8		GS	• N/A
G.11	Cyflenwyr PPC yn methu â chyflawni penderfyniadau PPC yn amserol ac yn effeithiol	8	8		GS ac Ymgynghorydd Trosolwg	• PPC yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r holl gyflenwyr ac yn monitro perfformiad yn barhaus. Mae cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn ac o ganlyniad mae'r sgôr tebygolrwydd wedi'i adolygu i lawr i 2, sy'n arwain at sgôr risg o 8, yn unol â'r targed.

G.12	Gweithredwr PPC yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau contractiol neu'n stopio darparu gwasanaethau Gweithredwr yn sgil gadael y farchnad neu gyfyngiadau rheoleiddiol.	10	15		GS	• Bydd y GS yn parhau i ofyn i'r Gweithredwr am ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd Weithredu'r Cynllun y mae Deed Link Group wedi ymrwymo iddo gyda Dye & Durham i gaffael y sefydliad • Mae nifer o weithwyr allweddol Link wedi ymddiswyddo a byddant yn gadael y cwmni yn fuan. Mae'r rhain yn cynnwys y Rheolwr Perthnasau, Eamonn Gough. Mae wedi'i ddisodli gan rywun profiadol ac mae'r gweithgareddau trosglwyddo yn mynd rhagddynt. • Mae'r risg hon yn parhau'n sylweddol a bydd yr holl fesurau lliniaru cyfredol yn parhau. Caiff mesurau lliniaru eraill eu hystyried os ystyrir eu bod yn angenrheidiol.
G.13	Data cyfrinachol / masnachol sensitif PPC yn cael ei ryddhau, ei ddwyn neu ei gamleoli.	10	10		GS	• N/A
G.14	PPC yn methu ag adnabod a chymryd mesurau i gywiro camymarfer	5	10		GS	• Mae polisi chwythu'r chwiban PPC ar waith a chaiff ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ar 8 Gorffennaf 2022. Caiff y gyfradd risg ei hadolygu yn yr adolygiad ffurfiol nesaf yn Ch2 2023.

PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 8 GORFFENNAF 2022

PWNC POLISÏAU / CYNLLUNIAU NEWYDD
ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN: **Cymeradwyo:** • **Polisi Canu'r Gloch** • **Cynllun Parhad Busnes y Bartneriaeth**
RHESYMAU: Datblygwyd Polisi Canu'r Gloch a Chynllun Parhad Busnes ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac mae gofyn i'r Cydbwyllgor Llywodraethu eu cymeradwyo.

Awdur yr Adroddiad: **Chris Moore**	**Swydd:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**Rhif Ffôn 01267 224160** **E-bost:** **CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 8 GORFFENNAF 2022

POLISÏAU / CYNLLUNIAU NEWYDD

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Datblygwyd Polisi Canu'r Gloch ar gyfer y Bartneriaeth sy'n darparu canllawiau i Bersonél a darparwyr y Bartneriaeth ar sut i godi pryderon petai ganddynt unrhyw amheuon bod camymddygiad gan unrhyw un sy'n gweithio i neu ar ran y Bartneriaeth. Mae'r polisi hefyd yn nodi'r mesurau amddiffynnol a ddarperir gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (“PIDA”). Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob tair blynedd, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau i'r polisi gerbron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo.

Yn ogystal, datblygwyd Cynllun Parhad Busnes sy'n amlinellu sut fydd y Bartneriaeth yn parhau i weithredu yn ystod amhariad annisgwyl i'r gwasanaeth. Mae atodiad i'r Cynllun, na ddylid ei gyhoeddi, yn cynnwys manylion yr unigolion i gysylltu â hwy petai problem yn digwydd sy'n rhwystro unrhyw un o prif gyrff llywodraethu'r Bartneriaeth, sef yr Awdurdod Lletya, Awdurdodau Cyfansoddol, y Cydbwyllgor Llywodraethu a'r GS, yn ogystal â chyflenwyr allweddol y Bartneriaeth rhag gweithio'n effeithiol. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu yn ôl yr angen.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Bydd y Polisi Canu'r Gloch a'r Cynllun Parhad Busnes yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn: MANYLIR AR Y RHAIN ISOD		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN**

Polisi Canu'r Gloch Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyflwyniad

1 Partneriaeth Pensiwn Cymru ("Y Bartneriaeth") yw'r trefniant cronni ar gyfer asedau wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru (yr "Awdurdodau Cyfansoddol"). Wyth Awdurdod Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru yw:

- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen

Cyngor Sir Gâr yw'r Awdurdod Lletya ar gyfer y Bartneriaeth.

2 Canu'r gloch yw'r weithred o ddatgelu gwybodaeth am ddrwgweithredu yn y gweithle. Y categorïau statudol ar gyfer drwgweithredu yw:

- trosedd (megis twyll yswiriant neu efadu trethi yn anghyfreithlon)
- torri unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol
- camweinyddiad cyfiawnder
- peryglu iechyd a diogelwch unigolyn
- difrod i'r amgylchedd
- cuddio gwybodaeth yn fwriadol am unrhyw un o'r uchod.

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (PIDA) 1998 yn darparu diogelwch cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu handwyo fel arall o ganlyniad i ddatgeliad a wneir mewn perthynas ag unrhyw un o'r categorïau uchod. Nid yw Aelodau Etholedig yn weithwyr cyflogedig o'r awdurdodau y maent yn eu cynrychioli.

3 Mae'r polisi hwn wedi'i lunio i roi arweiniad i Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth. Cyfeirir at y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl), y Gweithgor Swyddogion (GS) a'r Awdurdod Lletya gyda'i gilydd fel "Personél y Bartneriaeth", ynghyd ag ymgynghorwyr a chyflenwyr ("Darparwyr"). Mae'r CLl yn cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a chynrychiolydd wedi'i gyfethol (heb bleidlais) o'r cynllun aelodau. Mae'r GS yn cynnwys ymarferwyr a swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

4 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob tair blynedd, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau i'r polisi gerbron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo.

Sut i godi pryder

5 Dylai swyddogion yr Awdurdodau Cyfansoddol gyfeirio at Bolisi Canu'r Gloch eu Hawdurdod unigol.

6 Dylai Darparwyr Allanol gyfeirio at Bolisi Canu'r Gloch eu cwmni.

7 Dylai aelodau etholedig godi unrhyw bryderon drwy eu Hawdurdodau Cyfansoddol drwy gysylltu â'u swyddogion / dirprwy swyddogion A151 / monitro .

8 Gall aelodau etholedig hefyd godi pryderon drwy gysylltu â'r Awdurdod Lletya / Cyngor Sir Gâr yn uniongyrchol, naill ai drwy

- gysylltu â'r Awdurdod Lletya drwy gyfeiriad e-bost y Bartneriaeth partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

  neu fel arall

- drwy anfon e-bost at flwch post cyfrinachol Canu'r Gloch Cyngor Sir Gâr CEWhistleBlowing@carmarthenshire.gov.uk.
  Mae Swyddog Monitro a Dirprwy Swyddog Monitro Cyngor Sir Gâr yn monitro'r blwch post hwn.

Byddant wedyn yn darparu arweiniad.

Gwybodaeth Bellach

9 Os ydych angen unrhyw fanylion pellach am Bolisi Canu'r Gloch y Bartneriaeth, cysylltwch â partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

Fersiwn 1.0

Mai 2022

Cynllun Parhad Busnes ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn wedi'i lunio i roi arweiniad i Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth. Cyfeirir at y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl), y Gweithgor Swyddogion (GS) a'r Awdurdod Lletya gyda'i gilydd fel "Personél y Bartneriaeth", ynghyd ag ymgynghorwyr a chyflenwyr ("Darparwyr").

Bydd angen diweddaru'r swyddogaethau allweddol sydd wedi'u nodi ar gyfer pob corff yn dilyn unrhyw newidiadau i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

Mae'r holl swyddogion ac aelodau etholedig sy'n cynnal swyddogaethau'r Bartneriaeth yn cael eu cyflogi gan, neu yn cynrychioli, un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol (AC). Bydd yr holl dechnoleg, systemau ac eiddo a ddefnyddir gan yr unigolion hynny i gynnal swyddogaethau'r Bartneriaeth o dan berchnogaeth ac yn cael eu cynnal gan un o'r AC. I ddechrau, bydd unrhyw ymyrraeth ar y gallu i gynnal swyddogaethau'r Bartneriaeth yn cael ei reoli o dan gynllun parhad busnes yr AC perthnasol, tra'n sicrhau hefyd y rhoddir gwybod am y broblem i bartïon perthnasol y Bartneriaeth a'r camau a gymerir i'w datrys.

Mae'r cynllun hwn wedi'i rannu'n ddwy ran. Mae prif ran y ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o swyddogaethau prif gyrff llywodraethu'r Bartneriaeth, ynghyd â disgrifiad o'r camau gweithredu pe byddai problem parhad busnes yn codi. Gellir rhyddhau'r brif ran i'r cyhoedd.

Mae ail ran y ddogfen yn cynnwys atodiad sy'n rhestru manylion yr unigolion y dylid cysylltu â hwy o dan wahanol amgylchiadau. Ni fydd atodiad y ddogfen hon yn cael ei ryddhau i'r cyhoedd.

2. Awdurdod Lletya

Awdurdod Lletya – Swyddogaethau Allweddol
Cyflogi staff sy'n cymryd rhan yn y swyddogaethau buddsoddi ar y cyd
Bod yn bwynt cyswllt er dibenion rheoli’r pŵl
Darparu adnoddau a chyfleusterau gweinyddol i'r pŵl
Darparu’r gwasanaethau llywodraethu a gweinyddol gan gynnwys trefnu a chlercio cyfarfodydd
Darparu hyfforddiant i aelodau'r Bartneriaeth
Darparu arbenigedd ariannol a chyfreithiol priodol
Darparu trosolwg swyddog a151 a swyddog monitro
Cynnal contractau gyda chyflenwyr ar ran y pŵl
Cysylltu gyda'r Gweithredwr ar ran yr AC
Darparu swyddogaethau cyfrifo i'r pŵl

Bydd swyddogaeth Awdurdod Lletya (ALl) yn cael ei darparu gan Gyngor Sir Gâr, gan ddefnyddio staff a systemau'r awdurdod.

Petai digwyddiad sy'n cyfyngu ar allu'r Awdurdod Lletya i gynnal rhai o'i swyddogaethau sy'n ymwneud â gweithrediad y Bartneriaeth, bydd yr ALl yn ddibynnol ar gynllun parhad busnes Cyngor Sir Gâr.

Pan ddilynir y prosesau Parhad Busnes, bydd yr ALl yn hysbysu pob AC gan ddefnyddio'r rhestr gysylltiadau yn Atodiad 1, Tabl B.

Gellir gweld rhestr o'r swyddogion sy'n gyfrifol am hysbysu'r AC a'r cyflenwyr yn Atodiad 1, Tabl A

3. Awdurdodau Cyfansoddol

Awdurdodau Cyfansoddol – Swyddogaeth Allweddol
Penodi, terfynu neu ddisodli'r gweithredwr
Cymeradwyo gwariant ychwanegol sy'n fwy na 30% o'r gyllideb gymeradwy
Derbyn awdurdod newydd i'r pŵl
Diwygio/terfynu'r Cytundeb Rhwng-Awdurdodau
Cymeradwyo newid materol i gontract y gweithredwr.
Cymeradwyo'r cynllun Busnes, gan gynnwys amcanion strategol y pŵl
Cymeradwyo meini prawf gwerthuso ar gyfer caffael gweithredwyr

Mae'r AC yn gyfrifol am benderfynu ar faterion a gadwyd yn ôl. Mae gan bob AC ei brosesau penderfynu ei hun, sy'n gyson â'i gyfansoddiad a'i gynllun dirprwyo.

Petai digwyddiad sy'n cyfyngu ar allu'r Awdurdod Lletya i arfer ei gyfrifoldebau i penderfynu mewn perthynas i benderfyniadau'r Bartneriaeth, yna bydd yr AC hwnnw yn dibynnu ar ei brosesau parhad busnes/argyfwng ei hun.   Bydd hyn yn cynnwys unrhyw fesurau diogelwch seibr yn ôl yr angen.

Petai digwyddiad lle bo unrhyw AC yn gorfod dibynnu ar ei gynllun parhad busnes, a bod potensial y byddai swyddogaethau'r Bartneriaeth yn cael eu heffeithio, dylai'r swyddog a enwir o'r AC a effeithiwyd gysylltu â phob un o'r swyddogion a enwir o'r AC eraill i'w hysbysu am y sefyllfa.

Mae rhestr o'r swyddogion a enwir yn yr Awdurdodau Cyfansoddol i'w gweld yn Atodiad 1, Tabl B.

4. Cydbwyllgor Llywodraethu

Cydbwyllgor Llywodraethu – Swyddogaethau Allweddol
Gwneud argymhellion ar benodi, disodli neu derfynu'r Gweithredwr i'r Awdurdodau Cyfansoddol.
Penodi a disodli darparwyr gwasanaeth, cynghorwyr i'r CLl (ac eithrio'r Gweithredwr)
Cymeradwyo creu cerbydau pŵlio newydd ar gyfer y Gweithredwr
Cymeradwyo creu/terfynu is-gronfeydd newydd a ddarperir gan y Gweithredwr.
Cymeradwyo newidiadau nad ydynt yn faterol i Gontract Gweithredwr.
Rheolaeth barhaus y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd
Dirprwyo tasgau i'r Gweithgor Swyddogion
Cysylltu â Byrddau Pensiwn
Penderfynu ar mathau gorau o strwythurau buddsoddi amgen ar gyfer asedau os nad yw is-gronfa yn cael ei darparu gan y Gweithredwr.

Mae'r CLl yn cyfarfod yn chwarterol ac mae'n gyfrifol am oruchwylio'r dasg o gyfuno buddsoddiadau'r wyth AC. Gellir cynnal cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb neu'n rhithiol ar rwydweithiau TG a gefnogir gan yr AC.

Yr ALl sy'n gyfrifol am drefnu, dosbarthu papurau a chlercio cyfarfodydd.

Petai digwyddiad sy'n cyfyngu ar allu aelod CLl rhag ymgymryd â'u rôl, yna byddai'n rhaid dibynnu ar gynllun parhad busnes neu fesurau diogelwch seibr yr AC y mae'r aelod yn ei gynrychioli. Dylid cysylltu â'r ALl ar unwaith i'w hysbysu.

Petai digwyddiad sy'n effeithio ar allu'r ALl i gynnal y cyfarfod, dylid dilyn y broses o dan adran 1 "Awdurdod Lletya".

5. Gweithgor swyddogion (GS)

Gweithgor Swyddogion – Swyddogaethau Allweddol
Gwneud cynigion i'r CLl ar gaffael cefnogaeth allanol
Gwneud cynigion i'r CLl ar drefniadau llywodraethu
Gwneud cynigion i'r CLl ar y ffordd fwyaf priodol o gael mynediad i wahanol fathau o asedau, strwythur y Pŵl Buddsoddi gan gynnwys nifer a gwneuthuriad yr is-gronfeydd
Gwneud cynigion i'r CLl ar drefniadau trawsnewid lefel-uchel
Gwneud argymhellion i'r CLl ar benodi, disodli neu derfynu'r Gweithredwr
Monitro ac adolygu perfformiad y Gweithredwr a'r Dyranwyr wrth gyflawni eu hamcanion, lefelau gwasanaeth a'u ddangosyddion perfformiad allweddol ac adrodd i'r CLl
Derbyn adroddiadau ar berfformiad yr asedau ac adrodd i'r CLl
Adrodd yn allanol ar y drefn Buddsoddi ar y Cyd a'i pherfformiad
Cyswllt â chronfeydd ar y cyd eraill yn ôl yr angen
Paratoi'r Cynllun Busnes ar gyfer ymgynghori pellach
Datblygu ac adolygu'n gyson y rhaglen o hyfforddiant i'w chyflwyno i Aelodau
Ceisio cyngor gan ymgynghorwyr proffesiynol sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio
Rheoli'r broses gaffael ar gyfer caffael unrhyw Weithredwr neu Ddyrannwr olynol yn cynnwys cynnig meini prawf ar gyfer arfarnu bidiau neu dendrau

Bydd y GS yn cefnogi, yn cynghori ac yn gwneud argymhellion i'r CLl. Mae'r GS yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Hefyd, mae'n cyfarfod yn rhithiol bob pythefnos er mwyn symud gwaith yn ei flaen ac ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n codi rhwng y cyfarfodydd ffurfiol. O bryd i'w gilydd bydd is-grwpiau o'r GS yn cael eu ffurfio er mwyn ystyried meysydd penodol o gyfrifoldeb.

Gellir cynnal cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb neu'n rhithiol ar rwydweithiau TG a gefnogir gan yr AC.

Yr ALl sy'n gyfrifol am drefnu, dosbarthu papurau a chlercio cyfarfodydd.

Petai digwyddiad sy'n effeithio ar allu aelod o'r GS rhag cymryd rhan mewn cyfarfod neu ymgymryd â'u rôl yn effeithiol, yna byddai'n rhaid dibynnu ar gynllun parhad busnes neu fesurau diogelwch seibr yr AC y mae'r aelod yn ei gynrychioli. Dylid cysylltu â'r ALl ar unwaith i'w hysbysu.

Petai digwyddiad sy'n effeithio ar allu'r ALl i gefnogi'r cyfarfod, dylid dilyn y broses o dan adran 1 "Awdurdod Lletya".

6. Cyflenwyr Hanfodol a Sefydliadau Trydydd Parti

Mae'r cyflenwyr a ganlyn yn darparu gwasanaethau i'r Bartneriaeth. Fe'u rhennir i'r categorïau a ganlyn:

Categori	Cyflenwyr trydydd parti	Swyddogaeth/gwasanaeth a ddarperir
1	Link Fund Solutions Ltd	Gweithredwr
1	Russell Investments	Darparwr Atebion Rheoli Buddsoddiadau
1	Northern Trust	Ceidwad
2	Hymans Robertson	Ymgynghorydd Trosolwg
2	Burges Salmon	Ymgynghorydd Cyfreithiol
2	Robeco UK	Egwyddorion Pleidleisio drwy Ddirprwy ac Ymgysylltu

Categori 1 – pan fyddai anallu/methiant i gyflwyno'r gwasanaeth yn arwain at effaith gritigol ar unwaith ar swyddogaethau'r Bartneriaeth.

Categori 2 – pan fyddai anallu/methiant i gyflwyno'r gwasanaeth yn arwain at niwed i'r swyddogaethau'r Bartneriaeth, naill ai ar unwaith neu dros gyfnod o amser, ond lle gellir rheoli'r effaith drwy, er enghraifft, ymestyn dyddiadau cau, blaenoriaethu, caffael gwasanaethau o fannau eraill ac ati.

Gweler y rhestr o fanylion cyswllt ar gyfer y cyflenwyr yn Atodiad 1, Tabl C

Mae gan bob cyflenwr gynllun parhad busnes addas yn ei le, sy'n darparu ar gyfer ymdrin yn brydlon ac yn effeithlon gydag unrhyw ddigwyddiad a allai effeithio ar ei allu i berfformio unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Bartneriaeth. O bryd i'w gilydd dylai pob cyflenwr brofi ac adolygu ei gynlluniau parhad busnes a diogelwch seibr a sicrhau bod copi ar gael i'r AC ar gais.

Mewn perthynas â chyflenwyr a gafodd eu caffael drwy Fframwaith Cenedlaethol CPLlL, ac nad ydynt bellach yn gallu cyflawni'r gwasanaethau o dan y contract, bydd yr ALl yn cynnal proses gaffael newydd o dan y Fframwaith Cenedlaethol.

Mae gofynion penodol FCA sy'n pennu'r amgylchiadau pan fyddai rheolwr cronfa awdurdodedig ACS yn cael ei dynnu gan yr Adneuwr.   Mae hyn yn rhoi lefel arall o ddiogelwch i'r Bartneriaeth mewn amgylchiadau pan nad yw'r ACS yn gallu darparu'r gwasanaeth sy'n ofynnol am un neu fwy o'r rhesymau a restrir.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn 6.5.7 o Bennod 6 yn Llawlyfr FCA. Ceir dolen i'r ddogfen yma https://www.handbook.fca.org.uk/handbook/COLL/6/5.pdf

7. Termau a ddefnyddiwyd yn y ddogfen hon

Cynllun Cytundebol wedi'i Awdurdodi (“ACS”)

Awdurdodau Cyfansoddol (“AC”) sef;

- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen

Awdurdod Lletya (“ALl”) Cyngor Sir Gâr

Cydbwyllgor Llywodraethu ("CLl") , sef y cydbwyllgor a ffurfir gan y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

Gweithredwr , sef gweithredwyr y cerbydau buddsoddiadau wedi'u pŵlio sy'n Gynllun Cytundebol wedi'i Awdurdodi neu "ACS" (fel y diffinnir gan y Contract Gweithredwr) ac unrhyw gerbyd buddsoddi ar y cyd arall a ddefnyddir i ddal asedau'r Pŵl Buddsoddi yn unol â Chontract y Gweithredwr.

Gweithgor Swyddogion ("GS") sy'n cefnogi, yn cynghori ac yn gwneud argymhellion i'r CLl.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

DYDDIAD 8 GORFFENNAF 2022

PWNC

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo diweddariad i'r:

- **Polisi Pleidleisio**
- **Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau**
- **Polisi Risg**
- **Polisi Risg Hinsawdd**

Nodi'r diweddariad cynnydd Blynyddol ar Fuddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd

RHESYMAU:

Cymeradwywyd y Polisi Pleidleisio presennol gan y Cydbwyllgor ym mis Rhagfyr 2020 ac fe gymeradwywyd y Polisi Gwrthdaro Buddiannau, Polisi Risg a'r Polisi Risg Hinsawdd yn gychwynnol gan y Cydbwyllgor ym mis Gorffennaf 2020 ac fe'u hadolygwyd ym mis Gorffennaf 2021. Mae adolygiad blynyddol o'r polisïau hyn wedi cael ei gynnal ac mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu gymeradwyo'r polisïau sydd wedi'u diweddaru.

Hefyd, mae Hymans wedi cynnal adolygiad o'r gwaith a wnaed yn unol â'r ymrwymiadau a nodir yn y Polisi Buddsoddi Cyfrifol a'r Polisi Risg Hinsawdd ac maent wedi darparu adroddiad sy'n rhoi asesiad o'r cynnydd y mae'r Bartneriaeth wedi'i wneud yn ystod y 12 mis hyd 31 Mawrth 2022 a'r meysydd a fwriedir ar gyfer ffocws yn y dyfodol.

Awdur yr Adroddiad:	Swydd:	Rhif Ffôn: 01267 224160
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	E. CMoore@carmarthenshire.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
DYDDIAD 8 GORFFENNAF 2022

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (y Bartneriaeth) wedi cymeradwyo sawl polisi / cynllun gaiff eu hadolygu yn flynyddol. Y chwarter hwn, mae'r GS wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r:

- Polisi Pleidleisio,
- Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau,
- Polisi Risg, a'r
- Polisi Risg Hinsawdd.

Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y CLl i'r Bartneriaeth fabwysiadu Polisi Pleidleisio Robeco. Mae'r polisi hwn wedi cael ei adolygu gan yr is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol a'r Gweithgor Swyddogion a chynigir bod y Bartneriaeth yn parhau i fabwysiadu Polisi Pleidleisio Mewnol Robeco. Mae Robeco yn adolygu a diweddaru eu Polisi Pleidleisio yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cynrychioli ei arfer gorau dilynol ac mae'r Gweithgor Swyddogion yn credu fod yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori ym Mholisi Pleidleisio Mewnol Robeco yn adlewyrchu'n briodol ar amcanion y Bartneriaeth. Datblygwyd polisi pleidleisio "penodol i'r Bartneriaeth" sy'n nodi polisi'r Bartneriaeth ar bleidleisio drwy ddirprwy mewn perthynas â'r holl asedau sy'n cael eu buddsoddi yn is-gronfeydd y Bartneriaeth. Mae'r polisi hwn hefyd yn cynnwys dolen i Bolisi Pleidleisio Mewnol Robeco.

Mae'r Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau yn amlinellu sut mae adnabod gwrthdrawiadau, eu rheoli a'u monitro. Mae'r GS wedi adolygu'r polisi hwn ac wedi'i addasu i adlewyrchu newid enw'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) i'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau (DLUHC). Mae amlder yr adolygiad ffurfiol wedi cael ei newid i bob tair blynedd, mae geiriad y polisi (pwynt 12) wedi cael ei addasu yn unol â hynny.

Mae'r Polisi Risg yn amlinellu credoau ac amcanion y Bartneriaeth mewn perthynas â risg, mae'n manylu ei strategaeth o ran sut mae adnabod risgiau, eu rheoli a'u monitro. Mae'r GS wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r polisi hwn. Yn yr un modd â'r Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau, mae'r polisi hwn wedi'i addasu i adlewyrchu newid enw'r MHCLG ac amlder yr adolygiad ffurfiol wedi'i newid i bob tair blynedd; mae'r geiriad polisi (pwynt 9) wedi'i addasu'n unol â hynny.

Mae'r Polisi Risg Hinsawdd yn nodi dull y Bartneriaeth o ran ymdrin â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol mewn perthynas â risgiau sy'n ymwneud â hinsawdd a monitro'r risgiau hynny. Mae'r GS wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r polisi hwn ac wedi addasu'r polisi i adlewyrchu lansiad yr is-gronfeydd Incwm Sefydlog. Hefyd, mae'r polisi hwn wedi cael ei addasu i gyfleu ymrwymiad y Bartneriaeth i adrodd yn unol â gofynion TCFD ac i gefnogi'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda'u hadrodd TCFD eu hunain (pwynt 33).

Hefyd, mae Hymans wedi darparu adroddiad diweddaru yn asesu'r cynnydd y mae'r Bartneriaeth wedi'i wneud yn ystod y 12 mis hyd 31 Mawrth 2022, mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol a'r Risg Hinsawdd, ac mae'n tynnu sylw at rai o'r prif feysydd. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn manylu ar rai meysydd lle nad yw'r gwaith wedi gwneud cynnydd dros y flwyddyn a'r meysydd posib ar gyfer gweithgarwch/gwelliannau yn ystod 2022/23.

Os yw'r polisïau yn cael eu cymeradwyo, byddant yn cael eu diweddaru ar wefan y Bartneriaeth.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Mae'r Polisi Pleidleisio, Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau, Polisi Risg a'r Polisi Risg Hinsawdd i gyd yn ddogfennau ffurfiol Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn: MANYLIR AR Y RHAIN ISOD		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Polisi Pleidleisio ("Polisi")

1 Cyflwyniad

1.1 Partneriaeth Pensiwn Cymru ("Y Bartneriaeth") yw'r trefniant cronni ar gyfer asedau wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru (yr "Awdurdodau Cyfansoddol").

1.2 Goruchwylir trefniadau buddsoddi'r Bartneriaeth gan Gydbwyllgor Llywodraethu ("CBLl") ac fe'i cefnogir gan Weithgor Swyddogion ("GS") a'u gweithredu drwy gyfres o is-gronfeydd. Dirprwyir y cyfrifoldeb am graffu arferion pleidleisio i Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth.

1.3 Mae'r ddogfen hon yn nodi polisi'r Bartneriaeth ar bleidleisio drwy ddirprwy mewn perthynas â'r holl asedau sydd wedi'u buddsoddi yn is-gronfeydd y Bartneriaeth. Datblygwyd y polisi hwn gan y Bartneriaeth mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol gan gymryd cyngor gan ei ymgynghorwyr a'r Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu ("Darparwr P&Y") sydd wedi'i benodi.

1.4 Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Robeco fel ei Ddarparwr P&Y. Rôl y Darparwr P&Y yw:

- Rhoi mewnbwn i'r Bartneriaeth ar ddatblygu polisi pleidleisio addas;
- Gweithio gyda'r Bartneriaeth i ddeall themâu blaenoriaeth y Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol ar gyfer pleidleisio ac ymgysylltu a sicrhau bod rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith a wneir gan Robeco ar ran y Bartneriaeth;
- Ymgymryd â phleidleisio drwy ddirprwy ar yr holl gyfranddaliadau a ddelir yn is-gronfeydd y Bartneriaeth;
- Ymgysylltu â chwmnïau sydd wedi'u dal yn is-gronfeydd y Bartneriaeth i gyflawni'r amcanion ymgysylltu ar ran y Bartneriaeth;
- Adrodd yn chwarterol ar y pleidleisio a wneir ar ran y Bartneriaeth;
- Trafod y gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu a wneir ar ran y Bartneriaeth gyda'r Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol a'r partion eraill.

2 Polisi pleidleisio

2.1 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod fod Robeco yn cynnal polisi pleidleisio mewnol ("Robeco House Voting Policy"). Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod ymhellach fod Robeco yn adolygu a diweddaru'r Polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cynrychioli arfer orau.

2.2 Mae'r Bartneriaeth wedi adolygu polisi pleidleisio mewnol Robeco ac yn credu fod yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori ym Mholisi Pleidleisio Mewnol Robeco yn adlewyrchiad priodol o amcanion y Bartneriaeth. Felly, mae'r Bartneriaeth wedi rhoi cyfarwyddyd i Robeco bleidleisio ar yr holl gyfranddaliadau a ddelir yn is-gronfeydd y Bartneriaeth yn unol â Pholisi Pleidleisio Mewnol Robeco.

2.3 Mae'r Bartneriaeth yn aelod o'r Fforwm Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol (LAPFF). Lle mae'r LAPFF yn cyflwyno hysbysiadau pleidleisio, mae'r Bartneriaeth wedi cyfarwyddo Robeco i ystyried sylwedd yr hysbysiad pleidleisio cyn pleidleisio ar ran y Bartneriaeth, er fod Robeco yn cynnal cyfrifoldeb am y penderfyniad terfynol ar unrhyw bleidlais ac mae'r Bartneriaeth yn disgwyl i'r polisi pleidleisio gael ei ddilyn. Lle mae pleidlais yn cael ei bwrw y

tu allan i'r hysbysiad pleidleisio LAPFF, mae'r Bartneriaeth angen i Robeco ddarparu eglurhad o'r gwahaniaeth.

3 Blaenoriaethau Pleidleisio

3.1 Bydd y Bartneriaeth yn cynnal cyfres o 'Flaenoriaethau Pleidleisio' sy'n ymdrin â phynciau sy'n benodol o bwys i gredoau ac amcanion y Bartneriaeth. Mae dau ddiben i osod Blaenoriaethau Pleidleisio:

- sicrhau bod y Bartneriaeth yn barod i fwrw ati i graffu'r gweithgarwch pleidleisio a wneir ar ei ran, a
- sicrhau bod y materion sy'n peri pryder i'r Bartneriaeth wedi cael eu cyfleu yn llawn i'w ddarparwr P&Y.

3.2 Bydd y Bartneriaeth yn ymgynghori gydag Awdurdodau Cyfansoddol yn flynyddol i ystyried y themâu sy'n dod i'r amlwg y dylid eu hadlewyrchu ym Mlaenoriaethau Pleidleisio'r Bartneriaeth. Hefyd, bydd themâu o'r fath yn cyfrannu at ddatblygu'r blaenoriaethau ymgysylltu.

3.3 Bydd y Bartneriaeth yn tynnu sylw ei Ddarparwr P&Y at ei Flaenoriaethau Pleidleisio. Bydd y Bartneriaeth yn defnyddio'r Blaenoriaethau Pleidleisio ar sail parhaus i graffu gweithgarwch y Darparwr P&Y, i sicrhau bod y deilliannau pleidleisio yn parhau i fod yn unol â'r disgwyliadau ac adnabod unrhyw feysydd pryder posib.

3.4 Bydd y Bartneriaeth yn adrodd ar bleidleisiau ar y Blaenoriaethau Pleidleisio yn flynyddol yn ei adroddiad Stiwardiaeth.

4 Adolygu'r polisi pleidleisio

4.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob blwyddyn, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau i'r polisi ger bron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo.

4.2 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod fod Polisi Pleidleisio Mewnol Robeco yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn rheolaidd. Bydd Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth yn adolygu unrhyw newidiadau i'r Polisi Pleidleisio Mewnol ac yn adrodd ar unrhyw faes pryder perthnasol i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor Llywodraethu.

4.2.1 Mewn amgylchiadau lle nad oes maes pryder perthnasol, bydd Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth yn cyfarwyddo Robeco i roi'r polisi mewnol wedi'i ddiweddaru ar waith yn syth.

4.2.2 Pan fo maes pryder perthnasol, bydd Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth yn cyfarwyddo Robeco i gynnal y polisi pleidleisio mewnol presennol. Yna, bydd y Bartneriaeth yn ymgysylltu â Robeco ac yn pennu pa gamau gweithredu y gellir eu cymryd.

4.3 Lle mae'r Bartneriaeth yn adnabod unrhyw faes diddordeb penodol i'r Bartneriaeth drwy ei ymgysylltu gydag Awdurdodau Cyfansoddol, bydd yr Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol yn ystyried ac yn cytuno ar p'un a ddylid codi mater o'r fath gyda Robeco. Lle y cytunir ar fater o'r fath, bydd y Bartneriaeth yn egluro ei safbwynt i Robeco ac yn gofyn i fater o'r fath gael ei adlewyrchu yn natblygiad parhaus Polisi Pleidleisio Mewnol Robeco.

5 .Monitro / Adrodd ar weithgarwch pleidleisio

5.1 Mae Is-grŵp y Bartneriaeth yn gyfrifol am gymryd trosolwg a monitro'r pleidleisio a wneir gan y darparwr P&Y, ac os oes angen, herio Robeco er mwyn deall y gweithgarwch pleidleisio y mae wedi ymgymryd ag ef ar ran y Bartneriaeth.

5.2 Bydd y Bartneriaeth yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion unrhyw bleidleisiau na chafodd eu bwrw ac esboniadau lle na chafodd pleidleisiau eu bwrw yn unol â'r egwyddorion cytunedig ar sail chwarterol. Bydd y Bartneriaeth yn trafod unrhyw fater sy'n peri pryder gyda'i Ddarparwr P&Y, neu gyda chynrychiolwyr eraill fel bo'r angen.

5.3 Bydd y Bartneriaeth yn adrodd ar weithgareddau pleidleisio bob chwarter i bob Awdurdod Cyfansoddol.

6 Gwybodaeth Bellach

6.1 Os ydych chi angen unrhyw fanylion pellach am y Polisi Pleidleisio, cysylltwch â Partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk a chyfeiriwch at wefan y Bartneriaeth.

Ebrill 2022

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Polisi a Gweithdrefn Gwrthdrawiadau Buddiannau ("Polisi")

Cyflwyniad

1. Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion y disgwylir i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ('CBLl'), Gweithgor Swyddogion ('GS') a'r Awdurdod Lletya, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'Personél PPC', ynghyd ag ymgynghorwyr a chyflenwyr ('Darparwyr') i'w dilyn i ddiben adnabod, rheoli a monitro gwrthdrawiadau buddiannau mewn perthynas â'r ddyletswydd maent yn ei hymgymryd i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ('PPC'/y Bartneriaeth).

2. Mae Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth wastad wedi gorfod adnabod, rheoli a monitro gwrthdrawiadau buddiannau. Mae proses cronfeydd cyfun Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ('CPLlL') wedi golygu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn gorfod delio gyda bodolaeth gwrthdrawiadau buddiannau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd gan Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau eraill.

3. Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er budd pennaf ei rhan-ddeiliaid a'i buddiolwyr, ond nid yw hyn yn atal Personél y Bartneriaeth a Darparwyr rhag cael rolau neu gyfrifoldebau sydd o ganlyniad yn gallu golygu gwrthdrawiad buddiant. Mae'n bwysig bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu dilyn a bod polisi a gweithdrefn gwrthdrawiad buddiannau, fel hwn, yn cael ei roi yn ei le i amlinellu sut i adnabod, rheoli a monitro gwrthdrawiadau.

4. Amcan y Bartneriaeth wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw gallu:

   4.1 dangos ei hymrwymiad i adnabod, rheoli a monitro gwrthdrawiadau buddiannau.

   4.2 glynu at gred y Bartneriaeth y bydd llywodraethu da a thryloywder yn arwain at well deilliannau i'w rhan-ddeiliaid.

   4.3 parhau gyda chreu fframwaith llywodraethu a gwneud penderfyniad y Bartneriaeth sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r deilliannau gorau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.

5. Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu diffiniad o wrthdrawiadau buddiannau sydd yn cynnwys gwrthdrawiadau posib, rhai a welir a rhai gwirioneddol. Mae'r Bartneriaeth yn deall nad yw hi efallai yn bosib adnabod, rheoli a monitro'r holl wrthdrawiadau buddiannau posib ac a welir, ond bydd yn ymdrechu i wneud hyn ble fo'n bosib.

6. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod methiant i reoli gwrthdrawiadau buddiannau yn golygu risgiau materol iddi, a gallai canlyniadau hyn gynnwys penderfyniadau sydd ddim er budd gorau rhan-ddeiliaid y Bartneriaeth, gan effeithio yn negyddol ar ei henw da a/neu gyfeirio at gyrff rheoleiddio. Mae nifer o ffactorau sydd angen eu monitro a'u rheoli er mwyn gallu gweithredu'r polisi hwn yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys:

   6.1 Cyfathrebu y cyfrifoldebau a amlinellir yn y polisi hwn yn effeithiol.

   6.2 Dull adnabod a pherchnogaeth glir o'r rolau a amlinellir yn y polisi hwn.

   6.3 Hyfforddiant addas a dealltwriaeth o'r rolau a'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y polisi hwn.

7. Lluniwyd y polisi hwn i roi arweiniad i Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth, ei nod yw sicrhau nad yw Personél a Darparwyr y Bartneriaeth yn ymddwyn yn amhriodol. Datblygwyd y polisi hwn gan y Bartneriaeth mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae rhestr o Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Bartneriaeth.

8. Mae'r Polisi hwn yn adlewyrchu cred y Bartneriaeth bod llywodraethu da a mwy o dryloywder yn gwella’r penderfyniadau a wneir gan arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth. Rhaid i'r

Bartneriaeth geisio bod yn ymwybodol o wrthdrawiadau buddiannau posib a chael gweithdrefnau yn eu lle i'w rheoli. Mae'r Polisi hwn yn amlinellu y gweithdrefnau mae'r Bartneriaeth wedi eu mabwysiadu i gyflawni hyn.

9. Yr Awdurdod Lletya fydd yn gyfrifol am fonitro gwrthdrawiadau buddiannau gan sicrhau bod holl Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn glynu ato. Bydd yr Awdurdod Lletya yn casglu'r datganiadau o wrthdrawiadau gan gadw cofrestr o wrthdrawiadau buddiannau.

10. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod hyfforddiant ac addysg yn hanfodol i gyflawni deilliannau da a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn ymgymryd â hyfforddiant ac addysg rheolaidd i adnabod, rheoli a monitro gwrthdrawiadau buddiannau.

11. Mae'r Polisi yma'n canolbwyntio yn unig ar wrthdrawiadau buddiannau a all godi o'r gwaith mae Personél a Darparwyr y Bartneriaeth yn ei ymgymryd ar ei rhan. Bydd Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yn parhau yn gyfrifol am reoli gwrthdrawiadau buddiannau y gall Personél neu Ddarparwyr y Bartneriaeth ddod ar eu traws wrth ymgymryd â gwaith ar lefel Awdurdod Cyfansoddol. Ynghyd â chwrdd gyda gofynion a disgwyliadau'r Polisi hwn, dylai Personél a Darparwyr y Bartneriaeth barhau i lynu at unrhyw bolisïau eraill i reoli gwrthdrawiadau buddiannau maent yn ddarostyngedig iddynt, gall hyn gynnwys polisïau Awdurdod Cyfansoddol neu gwmni a chodau ymddygiad perthnasol eraill.

12. Caiff Polisi a Gweithdrefn Gwrthdrawiadau Buddiannau y Bartneriaeth ei adolygu yn ffurfiol gan y GS, a'i ddiweddaru os oes angen, bob tair blynedd. Er hynny, gellir adolygu neu newid y Polisi yn amlach os oes angen i'r Bartneriaeth roi sylw i ganllawiau neu reoliadau perthnasol.

Diffiniad a Dehongliad

13. Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu diffiniad Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 o wrthdaro buddiannau, sy'n datgan bod gwrthdrawiad buddiant yn fuddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o ragfarnu gweithrediad swyddogaethau unigolyn.

14. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod y gall gwrthdrawiad buddiannau fodoli pan fo gan Bersonél neu Ddarparwr y Bartneriaeth gyfrifoldeb neu ddyletswydd ymddiriedol yng ngweithrediad, y broses o wneud penderfyniadau neu reolaeth y Bartneriaeth ond hefyd â:

    14.1 Buddiant personol neu gorfforaethol ar wahân, sy'n gallu bod yn ariannol neu anariannol ei natur.

    14.2 Cysylltiad arall i'r mater a fedrai beri gwrthdaro posib gyda'u cyfrifoldeb sylfaenol i'r Bartneriaeth. Gallai'r buddiant yma godi drwy gysylltiad ac gallai darddu o aelod teuluol neu gydweithiwr gyda rhwymedigaeth neu fuddiant.

Polisi a Gweithdrefn

15. Er mwyn i'r Polisi yma weithio mae Personél a Darparwyr y Bartneriaeth wedi cytuno bod yn rhaid iddynt:

    15.1 gydnabod unrhyw wrthdrawiad buddiannau sydd ganddynt;

    15.2 fod yn agored gyda'i gilydd am unrhyw wrthdrawiad buddiannau sydd ganddynt;

    15.3 mabwysiadu datrysiadau ymarferol; a

    15.4 cynllunio ymlaen a rheoli unrhyw wrthdrawiad buddiannau sy'n codi.

16. Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu y weithdrefn isod i gael tryloywder llawn ac fel bod modd cadw cofnod manwl o unrhyw wrthdrawiadau buddiannau yn y Bartneriaeth.

    16.1 Bydd holl Bersonél y Bartneriaeth yn darparu ffurflen datgan buddiant ar eu penodiad, ac unwaith y flwyddyn wedi hynny, a bydd hon yn cael ei chadw ac ar gael yn hawdd i holl Bersonél y

Bartneriaeth, ar gais. Mae angen i Bersonél y Bartneriaeth hysbysu'r Awdurdod Lletya os oes unrhyw newidiadau i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn eu datganiad.

16.2 Ar ddechrau cyfarfodydd CBLl, mae'n ofynnol bod yr Aelodau yn datgan yn ffurfiol eu gwrthdrawiadau o fuddiant. Bydd Personél a Darparwyr y Bartneriaeth hefyd yn gorfod datgan unrhyw wrthdrawiad sy'n gysylltiedig gyda unrhyw eitemau ar raglen y cyfarfod.

16.3 Rhaid i Bersonél y Bartneriaeth sydd yn credu bod ganddynt hwy, neu aelod arall o gymuned y Bartneriaeth, wrthdrawiad buddiant ar bwnc arbennig hysbysu'r Swyddog Monitro, fel bod modd ceisio cyngor. Bydd y gwrthdaro buddiant a'r camau gweithredu a gymerwyd yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

16.4 Ar ddechrau pob cyfarfod GS, bydd Swyddogion y GS sy'n bresennol yn gorfod datgan os yw eu datganiadau wedi newid ers iddynt gyflwyno eu ffurflenni datgan buddiant diwethaf.

16.5 Rhaid i Bersonél y Bartneriaeth sydd yn credu bod ganddynt hwy, neu aelod arall o gymuned y Bartneriaeth, wrthdrawiad buddiant sydd wedi codi rhwng cyfarfodydd roi gwybod i'r Awdurdod Lletya ar y cyfle cyntaf posib. Yn dilyn hyn, dylid darparu ffurflen datganiad buddiant wedi'i diweddaru i'r Awdurdod Lletya.

16.6 Mae gofyn i Ddarparwyr y Bartneriaeth ddarparu manylion i'r Awdurdod Lletya am eu gweithdrefnau rheoli gwrthdaro neu eu cod ymarfer proffesiynol. Darperir copi o'r Polisi hwn i Ddarparwyr ar eu penodiad.

16.7 Mae'n ofynnol bod darparwyr y Bartneriaeth yn datgelu i'r Awdurdod Lletya unrhyw wrthdrawiad buddiant all godi, gan gynnwys unrhyw drydydd partïon cysylltiedig a gyflogir.

17. Wedi adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau, bydd y Awdurdod Lletya yn cynnal proses werthuso, a adolygir gan y GS. Bydd y broses werthuso yn asesu difrifoldeb posib yr effeithiau a fedrai ddigwydd pe na fyddai'r gwrthdaro dewisol yn cael ei reoli'n addas. Yn dilyn y broses werthuso bydd y Bartneriaeth yn dosbarthu'r gwrthdaro ar sail natur a difrifoldeb posib ei effaith. Bydd y Bartneriaeth yn defnyddio graddfa difrifoldeb tair lefel, bydd gwrthdaro yn cael ei ddosbarthu un ai yn risg isel, canolig neu uchel.

18. Bydd y Bartneriaeth yn ceisio rheoli gwrthdrawiadau buddiannau mewn ffordd deg a chytbwys. Mae'r Bartneriaeth wedi gosod proses uwchgyfeirio yn ei lle i reoli yn effeithiol unrhyw wrthdaro buddiannau a nodwyd fel rhai sydd angen eu rheoli ymhellach:

18.1 Gall y Bartneriaeth ofyn am ragor o fanylion ar y gwrthdaro buddiannau perthnasol er sicrhau deall ei natur a'i effaith posib yn llawn.

18.2 Os oes angen, bydd y Bartneriaeth yn gofyn i'r Personél neu'r Darparwr perthnasol i ymatal neu yn wirfoddol i eithrio eu hunain ar y mater ble fo ganddynt fuddiant sy’n gwrthdaro.

18.3 Os yw'r Personél neu'r Darparwr perthnasol yn amharod i ymatal neu yn wirfoddol i eithrio eu hunain yna bydd y Bartneriaeth yn sicrhau bod y Personél neu'r Darparwr perthnasol yn cael eu heithrio o'r mater ble mae ganddynt fuddiant sy’n gwrthdaro.

18.4 Os yw'r holl ymdrechion blaenorol yn methu, gall y Bartneriaeth ofyn am ymddiswyddiad Personél perthnasol y Bartneriaeth neu'r Darparwr.

19. Bydd proses uwchgyfeirio pedwar cam y Bartneriaeth yn addas yn y mwyafrif o achosion. Er hynny, gall fod amgylchiadau lle bydd angen elfen o hyblygrwydd, yn yr achosion hyn a bydd y Bartneriaeth yn defnyddio ei disgresiwn i sicrhau bod y gwrthdaro perthnasol yn cael ei reoli yn effeithiol ac yn sydyn. Er enghraifft, gall fod yn amlwg o'r dechrau mai dim ond drwy ymddiswyddiad Personél neu Ddarparwr perthnasol y Bartneriaeth y gellir rheoli gwrthdrawiad buddiannau yn effeithiol.

20. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod gan y broses a’r strwythur gwneud penderfyniadau ddylanwad sylweddol ar allu gwrthdaro buddiannau i effeithio ar y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn rheolaidd yn adolygu ac yn derbyn hyfforddiant ar ei phrosesau gwneud penderfyniadau gyda'r bwriad o adnabod agweddau sy'n gallu darparu amgylchedd i wrthdaro buddiannau ddigwydd ac i effeithio yn negyddol ar y Bartneriaeth.

21. Yn benodol, mae'r Bartneriaeth wedi adnabod rhagfarn diarwybod, fel angori, fel ffordd ble mae buddiant sy’n gwrthdaro yn gallu effeithio yn gynnil ar broses gwneud penderfyniadau'r Bartneriaeth. Cred y Bartneriaeth bod ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar ragfarn diarwybod o gymorth i liniaru ei gallu i feithrin gwrthdaro buddiannau o fewn i prosesau gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth.

Canllawiau a Deddfwriaeth

22. Mae'r Bartneriaeth yn nodi nad oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol wedi ei darparu hyd yma gan y llywodraeth i reoli gwrthdrawiadau buddiannau a allai godi wrth gyd-fuddsoddi’r CPLlL. Er hynny, wrth lunio'r Polisi yma mae'r Bartneriaeth wedi ystyried ac ymgorffori y canllaw a'r rheoliad isod.

23. Mae Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn canolbwyntio ar Fyrddau Pensiwn, er hynny wrth lunio'r Polisi yma mae'r Bartneriaeth wedi allosod y canllaw isod o'r Ddeddf, rhaid i'r Bartneriaeth fod;

23.1 Yn fodlon, ar eu penodiad, nad oes gan Bersonél y Bartneriaeth wrthdrawiad buddiannau na ellir eu rheoli a'u monitro yn ddigonol.

23.2 Yn fodlon o bryd i'w gilydd nad oes gan unrhyw Bersonél y Bartneriaeth wrthdrawiad buddiannau na ellir eu rheoli a'u monitro yn ddigonol.

23.3 Yn gofyn bod Personél y Bartneriaeth, neu unigolyn sydd i'w benodi yn fuan, yn darparu gwybodaeth i'r Bartneriaeth fel sy'n rhesymol ei angen i'r Bartneriaeth i fod yn fodlon am bwyntiau 23.1 a 23.2.

Dalier sylw bod rheoliad 108 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 wedi cymhwyso gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus i'r CPLlL.

24. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i ymgysylltu gyda'r Adran Codi’r Gwastad, Tai a Chymunedau (“DLUHC”) a Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun gan roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol mewn perthynas â gwrthdrawiadau buddiannau a rheolaeth effeithiol o'r rhain. Bydd y Bartneriaeth yn diweddaru'r polisi yma pan fo angen sicrhau ei fod yn cyd-fynd gyda'r canllaw perthnasol.

25. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod yn rhaid i Aelodau Etholedig yr Awdurdod Cyfansoddol roi ystyriaeth ddyladwy i 'Ddeg Egwyddor Arweiniol' Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth ymgymryd â'u rôl ddynodedig. Yn unol â chanllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Bartneriaeth yn disgwyl i'w holl Bersonél fod yn ymwybodol o'r deg egwyddor ac i gydnabod pwysigrwydd ac arwyddocâd yr egwyddorion hyn wrth ymgymryd â gwaith ar ran y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi ystyried yr egwyddorion hyn wrth lunio'r Polisi yma gan nodi pwysigrwydd mabwysiadu'r egwyddorion hyn gan Bersonél y Bartneriaeth, sef:

25.1 Anhunanoldeb

25.2 Gonestrwydd

25.3 Dilysrwydd a Phriodoldeb

25.4 Dyletswydd i gynnal y Gyfraith

25.5 Stiwardiaeth

25.6 Bod yn wrthrychol wrth wneud penderfyniadau

25.7 Cydraddoldeb a Pharch

25.8 Bod yn agored

25.9 Atebolrwydd

25.10 Arweiniad

26. Lluniodd y Rheoleiddiwr Pensiynau ddogfen Canllaw Gwrthdrawiadau Buddiannau, mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod y canllaw hwn wedi ei llunio gan roi sylw i'r Byrddau Pensiwn, er hynny mae'r egwyddorion cyffredinol a'r canllaw wedi cael eu hystyried yn natblygiad y Polisi yma. Mae dogfen Canllaw Gwrthdrawiadau Buddiannau y Rheoleiddiwr wedi ei chyflwyno i holl Bersonél y Bartneriaeth ac ar gael drwy gyfleuster storio dogfennau ar-lein y Bartneriaeth.

27. Mae adroddiad CIPFA ar Egwyddorion Cronni Buddsoddiadau i Awdurdodau Gweinyddu CPLlL yn nodi bod y cyflwyniad i gronni CPLlL ag effaith faterol ar y roliau a ymgymerir gan aelodau pwyllgor, cynrychiolwyr, swyddogion ac ymgynghorwyr CPLlL. Mae'r Adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i ddiweddaru polisïau gwrthdrawiad buddiannau i adlewyrchu'r gwrthdaro newydd a fedrai godi o gronni CPLlL. Roedd y Bartneriaeth yn disgwyl i'w Phersonél fynd ati yn rhagweithiol i hysbysu eu Hawdurdod Cyfansoddol am unrhyw wrthdaro sy'n gallu codi o weithgareddau'r Bartneriaeth.   Ar ben hynny, mae'r Bartneriaeth wedi ystyried y gwrthdrawiadau newydd sy'n gallu codi o gronni CPLlL wrth lunio'r polisi yma ac mae wedi ceisio gweithredu polisïau a gweithdrefnau fydd yn rheoli'r gwrthdrawiadau hyn.

Gwybodaeth Bellach

28. Os hoffech ragor o fanylion am Bolisi a Gweithdrefn Gwrthdrawiad Buddiannau PPC, cysylltwch â walespensionpartnership@carmarthenshire.gov.uk

Fersiwn 3.0
Mehefin 2022

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Polisi Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru (y 'Polisi')

Cyflwyniad

1 Partneriaeth Pensiwn Cymru ("Y Bartneriaeth") yw'r trefniant cronni ar gyfer asedau yr wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru ("Awdurdodau Cyfansoddol").

2 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod ei bod yn wynebu nifer o risgiau, o'u gadael heb eu rheoli, all gyfyngu ar allu'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol i gyflawni eu hamcanion ac i weithredu er lles gorau eu rhan-ddeiliaid a'u buddiolwyr.

3 Amcan y Bartneriaeth wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw amlinellu:

3.1 Sut mae'r Bartneriaeth yn ystyried risg, ei hagwedd at risg a'r graddau y gellir rhoi cyfrif am risg yn ei phrosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau;

3.2 Y modd mae'r Bartneriaeth yn adnabod, dosbarthu ac yn mesur effaith bosib y risgiau;

3.3 Sut mae risgiau yn cael eu rheoli a'u lliniaru;

3.4 Y mecanweithiau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i fonitro risgiau; a

3.5 Y broses i adolygu effeithiolrwydd a datblygiad strategaethau lliniaru risg.

4 Mae'r polisi yma yn gymwys i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ('CBLl'), y Gweithgor Swyddogion ('GS'), Awdurdod Lletya, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'Personél y Bartneriaeth', ynghyd ag ymgynghorwyr a chyflenwyr ('Darparwyr'). Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod gan holl Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth ran i'w chwarae i adnabod, deall, rheoli a monitro risgiau posib a rhai gwirioneddol sy'n wynebu'r Bartneriaeth.

5 Mae'r Polisi hwn yn adlewyrchu cred y Bartneriaeth bod llywodraethu da a mwy o dryloywder yn gwella'r broses gwneud penderfyniadau gan arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth. Rhaid i'r Bartneriaeth geisio bod yn ymwybodol o'r holl risgiau sy'n ei hwynebu a chael gweithdrefnau yn eu lle i'w rheoli.

6 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod hyfforddiant ac addysg yn hanfodol i gyflawni deilliannau da a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn ymgymryd â hyfforddiant ac addysg rheolaidd i adnabod, rheoli a monitro risg.

7 Mae'r polisi yma'n canolbwyntio yn unig ar y risgiau a all godi o'r gwaith mae Personél a Darparwyr y Bartneriaeth yn eu hymgymryd ar ei rhan. Bydd Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yn parhau yn gyfrifol am reoli risgiau ar lefel Awdurdod Cyfansoddol. Ynghyd â chwrdd â gofynion a disgwyliadau'r polisi hwn, dylai Personél a Darparwyr y Bartneriaeth barhau i lynu at unrhyw bolisïau risg eraill y maent yn ddarostyngedig iddynt, gall hyn gynnwys polisïau Awdurdod Cyfansoddol neu gwmni a chodau ymddygiad perthnasol eraill. Datblygwyd y polisi hwn gan y Bartneriaeth mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol.

8 Wrth gynnal a gweithredu ar y polisi yma, bydd gan y Bartneriaeth ddeialog barhaus gydag unrhyw gyflenwyr perthnasol. Bydd y Bartneriaeth hefyd yn ceisio adborth gan drydydd partion ble bo hynny'n briodol.

9 Caiff y Polisi ei adolygu’n ffurfiol gan Is-grŵp Risg y Bartneriaeth a'r GS, gan ei ddiweddaru os os angen, bob tair blynedd. Er hynny, gellir adolygu neu newid y Polisi yn amlach os oes angen i roi sylw i arweiniad neu reoliadau perthnasol. Bydd y Polisi yn eitem ar raglen y CBLl bob tair blynedd, a bydd Cofrestr Risg y Bartneriaeth (o Bwynt 25 ymlaen) yn eitem chwarterol ar raglen y CBLl.

Credoau

10 Mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol na ellir lliniaru rhai risgiau'n llwyr ac mae'n cydnabod yr angen i gofleidio risg a sicrhau ei bod yn cael ei reoli'n weithredol ac yn effeithiol.

11 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod rheoli risg yn elfen hanfodol o'i hymrwymiad i lywodraethu da, ac felly bydd y Bartneriaeth yn datblygu ac yn glynu at strategaeth risg gadarn, eang a strwythuredig. Caiff y strategaeth hon ei gwreiddio yn fframwaith llywodraethu'r Bartneriaeth i sicrhau gwell penderfyniadau, gwell deilliannau i ran-ddeiliaid a gwell effeithlonrwydd.

12 Bydd adnabod, deall, rheoli a monitro risgiau yn effeithiol yn caniatáu i'r Bartneriaeth:

12.1 Leihau y tebygolrwydd o fethu â chwrdd â'i hamcanion;

12.2 Dangos ei hymrwymiad i lywodraethu da;.

12.3 Cyfyngu y graddau y caiff ei heffeithio gan ddatblygiadau na ellir eu darogan neu rai andwyol;

12.4 Cydbwyso cyfleoedd a risg yn gywir;

12.5 Bod yn fwy gwybodus wrth wneud penderfyniadau; a

12.6 Cyflawni gwell deilliannau i'w rhan-ddeiliaid.

13 I gyflawni ei hamcanion, mae angen i'r Bartneriaeth gynnal gweithgareddau neu fanteisio ar gyfleoedd sy'n rhoi lefelau sylweddol o risg iddi. Bydd llwyddiant y Bartneriaeth i raddau, yn dibynnu ar ei gallu i gydbwyso risg ac enillion yn effeithiol.

14 Cred y Bartneriaeth bod risgiau yn hyblyg o ran natur a bod difrifoldeb a thebygolrwydd risgiau yn gallu newid yn sydyn heb rybudd teg. Mae hyn yn amlygu'r angen i'r Polisi ragdybio a delio gyda newidiadau mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posib i'r Bartneriaeth a'i rhan-ddeiliaid.

15 Cyn gwneud penderfyniadau, mae'n hanfodol fod y Bartneriaeth yn deall y risgiau cysylltiedig gan ystyried sut y gellir rheoli'r risgiau hyn.

Amcanion

16 Amcanion sylfaenol y Bartneriaeth yw:

16.1 Darparu trefniadau cyfuno sy'n galluogi'r cronfeydd unigol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle bo hynny'n ymarferol);

16.2 Cyflawni arbedion cost materol i'r cronfeydd sy'n rhan o'r Bartneriaeth, gan wella neu gynnal perfformiad buddsoddiadau ar ôl ffïoedd;

16.3 Sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn er mwyn goruchwylio gweithgareddau'r Gronfa Gyfun;

16.4 Gweithio'n agos gyda chronfeydd cyfun eraill er mwyn ymchwilio i'r buddion y gallai'r holl ran-ddeiliaid yng Nghymru eu hennill o ddulliau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib; a

16.5 Darparu fframwaith buddsoddiadau sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i ran-ddeiliaid allweddol y Bartneriaeth, sef yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r canlyniadau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynlluniau.

17 Y risg mwyaf i weithrediad parhaus y Bartneriaeth yw ei gallu i gyflawni ar ei hamcanion sylfaenol, os nad yw'r Bartneriaeth yn gallu cyflawni ei pherfformiad buddsoddi, cyfleoedd ac arbedion cost i'w Hawdurdodau Cyfansoddol, mewn fframwaith llywodraethu cadarn, y risg i'r Bartneriaeth yw:

17.1 Awdurdodau Cyfansoddol yn gwrthod cymryd rhan yn y Bartneriaeth a buddsoddi eu hasedau gyda'r Bartneriaeth

17.2 Symudiad diwylliannol neu gamosod yn digwydd rhwng y Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol a all olygu bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn dewis tynnu'n ôl oddi wrth y Bartneriaeth

17.3 Ymyrraeth gan y Llywodraeth a all orfodi'r Bartneriaeth i roi'r gorau i'w gweithrediadau

18 Mewn cydnabyddiaeth o natur unigryw a phwysig y risgiau a amlinellwyd ym mhwyntiau 16 ac 17 mae'r Bartneriaeth wedi cymryd camau ychwanegol i reoli'r risgiau hyn. Ynghyd â'r polisi yma, Cynllun Busnes y Bartneriaeth yw'r modd y mae'r Bartneriaeth yn rhoi cydnabyddiaeth arbennig i'r risgiau hyn a'r camau gweithredu sydd eu hangen i'w rheoli. Mae Cynllun Busnes y Bartneriaeth yn adlewyrchu angen y Bartneriaeth i:

18.1 Ddarparu set o gyfleoedd buddsoddi amrywiol a deniadol i'r Awdurdodau Cyfansoddol

18.2 Rheoli a monitro risg buddsoddi, yn cynnwys Risg Hinsawdd

18.3 Cyflawni perfformiad buddsoddi gwell ar ôl ffioedd

18.4 Hwyluso arbedion cost ehangach i'r Awdurdodau Cyfansoddol

18.5 Darparu trefniadau llywodraethu effeithiol a chadarn

19 Yn ystod cwrs cynllun busnes y Bartneriaeth bydd y camau gweithredu isod yn cael eu blaenoriaethu i liniaru'r risg bod y Bartneriaeth yn methu â chwrdd â'r anghenion hyn:

19.1 Bydd is-gronfeydd pellach yn cael eu cyflwyno

19.2 Darparu bod adroddiad rheolaidd ar Risg Hinsawdd a chofleidio datrysiadau buddsoddi fydd yn galluogi'r Bartneriaeth i liniaru bod yn agored i risg hinsawdd

19.3 Datblygir perfformiad rheolwr buddsoddi gorau yn ei ddosbarth ac adrodd am risg

19.4 Parhau i ymchwilio i gyfleoedd arbed costau

19.5 Datblygu trefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth ymhellach

20 Mae'r Bartneriaeth hefyd yn cydnabod y risg sylweddol a achosir gan ei dibyniaeth ar ei Gweithredwr. Mae ymrwymiad Cynllun Busnes y Bartneriaeth i lunio Fframwaith Trosolwg Gweithredwr yn cydnabod yr angen i gymryd camau ychwanegol i reoli'r risg yma.

Strategaeth Risg

21 Mae strategaeth risg y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar roi mecanweithiau a phroses yn eu lle sy'n caniatáu iddi adnabod, deall, rheoli a monitro risg. Mae'r strategaeth nid yn unig yn ymwneud â risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau presennol y Bartneriaeth ond hefyd y rhai a wnaed yn y gorffennol neu sydd i'w cyflawni yn y dyfodol.

22 Fel rhan o'i strategaeth risg bydd y Bartneriaeth yn ymgymryd â'r isod:

22.1 Adnabod Risg

22.2 Deall Risg

22.3 Rheoli Risg

22.4 Monitro Risg

23 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod yr angen i sicrhau bod ei strategaeth risg yn:

23.1 Cael ei chyfathrebu yn effeithiol ac yn cael ei deall yn llawn gan Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth

23.2 Cael ei integreiddio i holl brosesau, gweithdrefnau a gweithgareddau y Bartneriaeth

23.3 Modd ei haddasu, yn flaengar ac yn effeithiol

24 Y CBLl fydd yn gyfrifol am sicrhau bod strategaeth risg y Bartneriaeth yn cael ei chyflawni ac y glynir ati. Er hynny, mae gan holl Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth ran unigol i'w chwarae i adnabod, deall, rheoli a monitro unrhyw risgiau posib i'r Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu Is-grŵp Risg penodol i sicrhau bod ganddi ddigon o amser i reoli ac adolygu ei hagwedd at risg.

25 Mae Is-grŵp Risg y Bartneriaeth yn cyfarfod bob chwarter ac yn gyfrifol am gynnal a chadw Cofrestr Risg y Bartneriaeth ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r GS a'r CBLl yn chwarterol.

26 Mae gan yr Is-grŵp Risg ran hanfodol drwy fod yn rhagweithiol i adnabod risgiau newydd ac asesu effeithiolrwydd gofynion presennol neu'r gofynion ar gyfer mesurau lliniaru risgiau ychwanegol. Mae'r Is-grŵp yn cynnig argymhellion, i'r GS, ar pa gamau y dylid eu cymryd i liniaru neu reoli risgiau ymhellach, nid yw y grŵp yn gyfrifol am weithredu'r camau gweithredu a argymhellir.

Adnabod a Deall

27 Mae'r modd y mae'r Bartneriaeth yn adnabod risg yn canolbwyntio ar adnabod risgiau ymadael a risgiau a fedr ddigwydd yn y dyfodol. Bydd ffordd rhagweithiol o adnabod risg yn y dyfodol yn caniatáu i'r Bartneriaeth fod yn rhagweithiol yn hytrach nac ymatebol, a byddai hyn yn sicrhau rheoli risg mwy effeithlon.

28 Mae'r Bartneriaeth yn defnyddio'r isod i adnabod risgiau:

28.1 Ymarfer asesiad risg manwl a gynhelir gan yr Is-grŵp Risg a'r GS

28.2 Adborth a chyfathrebu gyda rhan-ddeiliaid y Bartneriaeth

28.3 Ymarferion archwilio mewnol neu allanol

28.4 Cyfarfodydd, sgyrsiau ac ymgynghori rheolaidd gyda chronfeydd cyfun CPLlL eraill, Bwrdd Ymgynghori'r Cynllun a'r Adran Codi’r Gwastad, Tai a Chymunedau.

28.5 Adolygiad blynyddol o berfformiad y Bartneriaeth tuag at ei hamcanion hirdymor.

28.6 Llunio Cynllun Busnes Blynyddol y Bartneriaeth

Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod dulliau eraill ar wahân i'r rhai a amlinellir uchod yn gallu bod yn fodd effeithiol i adnabod risgiau a bydd y Bartneriaeth yn edrych i ddefnyddio'r dulliau amgen hyn os oes angen.

29 Unwaith fo risg wedi ei adnabod bydd y Bartneriaeth yn ceisio deall y risg a'i effeithiau posib. Fel rhan o'r broses bydd y Bartneriaeth yn:

29.1 Dosbarthu natur y risg

29.2 Adnabod achos y risg

29.3 Amlinellu effeithiau posib y risg

29.4 Ystyried y cyfnod amser pan fydd yr effaith yn cael ei deimlo

29.5 Nodi Perchennog/Perchnogion y Risg

29.6 Rhoi sgôr tebygolrwydd a difrifoldeb i'r risg

29.7 Rhoi sgôr risg cyffredinol i'r risg

30 Wrth ddeall risg, bydd y Bartneriaeth yn ystyried a yw'r risg yn un Ariannol, Gweithredol neu o ran Enw Da. Yn ychwanegol, bydd y Bartneriaeth yn defnyddio'r meini prawf a ganlyn i ddosbarthu'r amserlen pan fydd effaith y risg yn cael ei deimlo:

Tymor byr	Disgwylir i fwyafrif yr effaith ddod i'r amlwg ymhen cyfnod o 12 mis
Tymor canolig	Disgwylir i fwyafrif yr effaith ddod i'r amlwg ymhen cyfnod o 1 i 3 blynedd
Hirdymor	Disgwylir i fwyafrif yr effaith gymryd mwy na 3 blynedd i ddod i'r amlwg

31 Bydd y Bartneriaeth yn defnyddio'r system isod i osod sgôr tebygolrwydd i risg penodol:

Sgôr tebygolrwydd:	**Tebygolrwydd**	**% Tebygolrwydd**
1	Annhebygol iawn	0-25%
2	Annhebygol	25-40%
3	Posib	40-60%
4	Tebygol	60-75%
5	Tebygol iawn	75%+

32 Bydd y Bartneriaeth yn defnyddio'r system isod i osod sgôr difrifoldeb i risg penodol:

Sgôr Difrifoldeb:	**Effaith**	**% Effaith**
1	Di-nod	0-25%
2	Bychan	25-40%
3	Cymedrol	40-60%
4	Arwyddocaol	60-75%
5	Critigol	75%+

33 Caiff y Sgôr Risg Cyffredinol ei gyfrif drwy luosi y sgôr difrifoldeb efo'r sgôr tebygolrwydd. Defnyddir y Sgôr Risg Cyffredinol i ddosbarthu'r risg ar sail y matrics isod:

Sgôr Tebygolrwydd	Sgôr Difrifoldeb					
		1	2	3	4	5
	1	Isel	Isel	Isel	Isel	Isel
	2	Isel	Isel	Canolig	Canolig	Uchel
	3	Isel	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel
	4	Isel	Canolig	Uchel	Uchel Iawn	Uchel Iawn
	5	Isel	Uchel	Uchel	Uchel Iawn	Uchel Iawn

34 Unwaith fo'r Bartneriaeth wedi adnabod a deall risg bydd yn cael ei ddogfennu yng Nghofrestr Risg y Bartneriaeth.

Rheoli a Monitro

35 Mae'r Bartneriaeth wedi llunio Cofrestr Risg sef y modd y mae risgiau yn cael eu dogfennu, eu rheoli a'u monitro. Pwrpas Cofrestr Risg y Bartneriaeth yw:

35.1 Amlinellu risgiau a ffactorau allweddol y Bartneriaeth a allai gyfyngu ar ei gallu i gwrdd â'i hamcanion

35.2 Meintoli difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu'r Bartneriaeth

35.3 Crynhoi strategaethau rheoli risg y Bartneriaeth

35.4 Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn, effeithiolrwydd strategaethau lliniaru risg sy'n bodoli a'r gofyn am strategaethau lliniaru risg pellach

36 Mae'r Sgôr Risg Cyffredinol yn dangos lefel y rheolaeth sydd ei angen pan gaiff y risg ei hychwanegu yn gyntaf i Gofrestr Risg y Bartneriaeth:

Gwyrdd	Blaenoriaeth Isel	1 i 5	Dim angen gweithredu – Angen Monitro Parhaus
Melyn	Blaenoriaeth Ganolig	6 i 9	Adolygu Addasrwydd y Strategaethau Lliniaru Risg Presennol
Oren	Blaenoriaeth Uchel	10 i 15	Angen Gweithredu
Coch	Blaenoriaeth Uchel Iawn	16 i 25	Angen Camau Brys

37 Mae strategaeth rheoli risg y Bartneriaeth yn ystyried pa reoliadau risg presennol sydd yn eu lle, ac mae adnabod y rheoliadau presennol yn bwysig i sicrhau nad yw unrhyw strategaethau rheoli risg pellach yn aneffeithiol yn dyblygu'r mesurau presennol. Bydd unrhyw reoliadau risg yn cael eu hamlinellu yn glir yng Nghofrestr Risg y Bartneriaeth.

38 Cam nesaf strategaeth rheoli risg y Bartneriaeth fydd gosod sgôr targed risg i bob risg. Mae'r sgôr targed risg yn cynrychioli'r risg a fyddai'n parhau pe byddai'r Bartneriaeth yn defnyddio yr holl strategaethau rheoli risg posib mor effeithiol â phosib, o safbwynt hyn gellir ystyried y sgôr fel y senario achos gorau. Mae defnydd y Bartneriaeth o'r sgôr targed risg yn adlewyrchu ei chred na ellir llwyr liniaru yr holl risgiau.

39 Unwaith fo sgôr targed risg wedi ei ddyfeisio bydd y Bartneriaeth yn ystyried os yw'r sgôr yma wedi cael ei gwrdd, os nad yw, bydd camau yn cael eu cymryd i ostwng tebygolrwydd neu ddifrifoldeb y risg neu'r ddau. Bydd y Gofrestr Risg yn datgan pa barti sydd yn gyfrifol am gwblhau'r cam gweithredu yma.

40 Bydd y Gofrestr Risg yn darparu diweddariad statws ar gynnydd camau gweithredu a gweithgareddau rheoli risg y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu y system ddosbarthu isod:

Statws	Ystyr	Disgrifiad
	Bodlon	Mae'r Bartneriaeth wedi cwrdd â'i tharged sgôr risg, bydd yn canolbwyntio ar fynd yn ôl i fonitor'r risg yma a chynnal y sgôr risg presennol.
	Cyfforddus	Mae'r Bartneriaeth yn gyfforddus bod y sgôr risg yn mynd rhagddo tuag at y sgôr targed. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i lynu at a gweithredu y 'camau gweithredu sydd eu hangen' tan y bydd yn fodlon.
	Anfodlon	Mae'r Bartneriaeth yn parhau yn bryderus am y risg yma oherwydd ei arwyddocâd neu ar y cynnydd a wnaed i gyflawni y 'camau gweithredu gofynnol' neu effeithiolrwydd y camau hyn.

41 Cam olaf strategaeth risg y Bartneriaeth yw monitro risg, dyma yw'r broses y mae'r Bartneriaeth yn ei hystyried ac yn ei hadolygu, os:

41.1 Yw camau rheoli risg wedi eu cwblhau neu wedi cael eu bwrw ymlaen ers y dyddiad adolygu diwethaf

41.2 Bod y strategaethau rheoli risg wedi bod yn effeithiol

41.3 Angen camau gweithredu pellach

41.4 Bod nodweddion risg wedi newid yn faterol

41.5 Gellir dysgu gwersi fydd yn gallu gwella rheoli risg yn y dyfodol

42 Yn ystod ei gyfarfod chwarterol bydd yr Is-grŵp Risg yn adnabod unrhyw gamau gweithredu gofynnol sydd wedi eu hadnabod yn ystod yr adolygiad manwl o'r Gofrestr Risg gan ddogfennu hyn yn 'Log Pwyntiau Gweithredu yr Is-grŵp Risg' – mae'r ddogfen hon yn eitem sefydlog ar raglen y GS.

43 Yr Is-grŵp Risg a'r GS fydd yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg y Bartneriaeth gan adrodd yn ôl am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CPLlL yn chwarterol drwy Gofrestr Risg Dalfyredig y Bartneriaeth.

Gwybodaeth Bellach

44 Mae'r Bartneriaeth wedi adnabod yr isod fel risgiau posib a allai gyfyngu ei gallu i weithredu'r polisi yma:

44.1 Mae diffyg gwybodaeth yn golygu na all y Bartneriaeth adnabod a deall y risgiau yn effeithiol

44.2 Mae diffyg adnoddau yn golygu na all y Bartneriaeth adnabod a deall y risgiau yn effeithiol

44.3 Mae diffyg gwybodaeth neu adnoddau yn cyfyngu effeithiolrwydd strategaethau rheoli risg y Bartneriaeth

44.4 Nid yw Personél a Darparwyr y Bartneriaeth yn llawn ddeall ei Strategaeth Risg ac yn methu gwreiddio i broses gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth

44.5 Mae ffactorau eraill, fel gwrthdrawiad buddiannau, yn amharu ar weithrediad y polisi hwn.

Bydd y Bartneriaeth yn parhau i fonitro y risgiau hyn a ble fo'n bosib bydd yn cymryd camau i liniaru'r risgiau hyn.

45 Os hoffech ragor o fanylion am Bolisi Risg y Bartneriaeth, cysylltwch â walespensionpartnership@carmarthenshire.gov.uk

Fersiwn 3.0
Mehefin 2022

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Polisi Risg Hinsawdd PPC ("Polisi")

Cyflwyniad

1 Partneriaeth Pensiynau Cymru ("Y Bartneriaeth") yw'r trefniant cronfeydd cyfun ar gyfer asedau wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru ("Awdurdodau Cyfansoddol").

2 Goruchwylir trefniadau buddsoddi PPC gan Gydbwyllgor Llywodraethu ("CBLl") ac fe'i cefnogir gan Weithgor Swyddogion ("GS") a'u gweithredu drwy Is-gronfeydd a reolir gan ei "Reolwyr Buddsoddi".

3 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod newid hinsawdd yn cynrychioli risg ariannol materol i'w rhan ddeiliaid, yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae gan newid hinsawdd y potensial i amharu ar systemau economaidd, ariannol a chymdeithasol.

4 Mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol y gall newid hinsawdd olygu cam brisio asedau a chyfleoedd buddsoddi unigryw. Cred y Bartneriaeth y bydd glynu at bolisïau buddsoddi cyfrifol a strategaethau lliniaru risg hinsawdd yn golygu bod ei Hawdurdodau Cyfansoddol mewn lle da i adnabod a manteisio o'r cyfleoedd buddsoddi posib.

5 Ni wyddom beth fydd effaith bosib Newid yr Hinsawdd ar Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth a'u rhan-ddeiliaid mewnol (Aelodau a Chyflogwyr y Cynllun), o gofio am yr ansicrwydd polisi ar effeithiau ffisegol na wyddom amdanynt a all ddod o Newid Hinsawdd. Mae'r risgiau i'r Awdurdodau Cyfansoddol (ACau) a gyfyd o newid hinsawdd yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

5.1 Risgiau ffisegol: megis difrod i eiddo oherwydd llifogydd neu wlybaniaeth is yn achosi cynhaeaf gwael. Gall effaith o'r fath gael ei theimlo yn uniongyrchol gan yr ACau neu drwy effaith ar ddychweliadau a gyflwynir i'r ACau drwy fuddsoddiadau yn Is-gronfeydd y Bartneriaeth;

5.2 Risgiau Trawsnewid: sef y risgiau ariannol sy'n codi o newidiadau mewn polisi a thechnoleg i ymaddasu i economi carbon is a'r graddau mae'r rhain yn llifo drwodd i'r dychweliadau a gyflwynir i'r ACau drwy fuddsoddiadau yn Is-gronfeydd y Bartneriaeth.

5.3 Risgiau atebolrwydd: sef y costau posib a gyfyd gan bartïon sydd wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd newid hinsawdd sy'n ceisio cael iawndal gan y rhai maent yn eu dal yn gyfrifol.

6 Mae'r polisi yma yn nodi dull y Bartneriaeth o ymdrin â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol o ran risgiau sy'n gysylltiedig gyda'r hinsawdd a monitro'r risgiau hyn.

7 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan y GS yn flynyddol, a phe bai'n rhaid, caiff newidiadau i'r polisi eu cynnig i'r CBLl a'u cytuno ganddynt. Fel rhan o broses yr adolygiad blynyddol bydd y Bartneriaeth yn rhoi ystyriaeth i'r risg sy'n esblygu i'r Awdurdodau Cyfansoddol a hefyd i'w gofynion.

8 Bydd y polisi hwn yn ystyried Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ac unrhyw ganllawiau perthnasol a ddarperir gan y Bwrdd Cynghori Cynllun ("SAB"), yr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau ("DLUHC") a'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd ('IPCC'). Bydd y polisi yn nodi canllaw Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

9 Wrth gynnal a gweithredu ar y polisi yma, bydd gan y Bartneriaeth ddeialog barhaus gyda ei Gweithredwr, Rheolwyr Busnes, Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu a'r Ymgynghorydd Trosolwg. Bydd y Bartneriaeth hefyd yn ceisio mewnbwn gan drydydd partïon lle fo'n briodol.

Credoau

10 Mae gan y Bartneriaeth set o gredoau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, sy'n greiddiol i'w dull o ymdrin gyda'r risg posib a gyfyd o newid hinsawdd, a'r datrysiadau buddsoddi mae yn eu darparu i'r Awdurdodau Cyfansoddol i hwyluso rheolaeth o'u risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Mae credoau'r Bartneriaeth fel a ganlyn:

10.1 Mae risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn systemig o ran eu natur, gyda'r potensial i effeithio i raddau amrywiol ar y dychweliad buddsoddi o'r holl ddosbarthiadau ased a sectorau. Gall effaith o'r fath fod yn bositif neu'n negyddol.

10.2 Mae gwell dealltwriaeth o risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, ynghyd ag ymrwymiadau y llywodraeth, yn debygol o sbarduno trawsnewidiad carbon isel fydd yn cyflwyno amryw o gyfleoedd buddsoddi cryf i fuddsoddwyr, fel Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth, sydd yn wybodus iawn ar faterion Risg Hinsawdd ac yn gallu rheoli a lliniaru risg trawsnewidiad.

10.3 Mae'n ddyletswydd ar y Bartneriaeth i adnabod ffynonellau posib o risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd wrth ddatblygu unrhyw is-gronfa a/neu gaffael unrhyw wasanaeth gan ddarparwyr, ble fo angen, yn ceisio sicrhau bod risgiau o'r fath yn cael eu rheoli yn briodol a'u cyfathrebu i'r rhan-ddeiliaid.

10.4 Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu arbenigol i ymgysylltu yn uniongyrchol gyda chwmnïau sy'n buddsoddi ar ystod o faterion, yn cynnwys risg hinsawdd a datgeliadau risg hinsawdd, i wella gwerth hirdymor buddsoddiadau yr Awdurdodau Cyfansoddol yn y Bartneriaeth.

10.5 Fel rhan o'i rôl, mae Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu y Bartneriaeth yn cydweithio gyda pherchnogion asedau eraill i uchafu effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu y Bartneriaeth. Cred y Bartneriaeth bod cydweithio gyda pherchnogion asedau eraill a'i rheolwyr buddsoddi yn gallu bod yn ddull effeithiol i chwyddo ei llais gyda chwmnïau sy'n buddsoddi a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd.

Amcanion

11 Amcan y Bartneriaeth wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw:

11.1 dangos i'w rhan-ddeiliaid fod y Bartneriaeth yn rhoi ystyriaeth i newid hinsawdd a'r risg sy'n ymwneud â'r hinsawdd;

11.2 amlinellu yn glir ei rôl a'i chyfrifoldebau o ran cynnal ymgynghoriad parhaus gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol a hwyluso cynigiad buddsoddiad fydd yn galluogi bob Awdurdod i weithredu eu polisi risg hinsawdd eu hunain a thargedau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a'r uchelgeisiau; ac

11.3 yn ffurfiol amlinellu'r camau gweithredu y bydd y Bartneriaeth yn cael eu dal i gyfrif amdanynt gan ei rhan-ddeiliaid.

12 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gyfrifol am eu strategaeth fuddsoddi eu hunain, yn cynnwys eu Polisi Newid Hinsawdd / Risg eu hunain. Nid yw'r Bartneriaeth yn rhan o'r gwaith o lunio yr amcanion newid hinsawdd neu'r ymrwymiadau mae bob Awdurdod Cyfansoddol wedi eu gwneud ar lefel leol, ac ni fydd yn ceisio dylanwadu arnynt.

13 Rôl y Bartneriaeth yw ymgynghori gyda phob Awdurdod Cyfansoddol mewn perthynas â'u hamcanion hinsawdd, bob blwyddyn o leiaf, ac i lawn ddeall pa ddatrysiadau gweithredu maent eu hangen i gwrdd gyda'u hamcanion a'u hymrwymiadau.

14 Yn dilyn ymgynghori gyda phob Awdurdod Cyfansoddol bydd y Bartneriaeth yn ceisio datblygu a hwyluso datrysiadau buddsoddi sy'n galluogi pob Awdurdod Cyfansoddol i gyflawni eu hamcanion ac ymrwymiadau hinsawdd.

15 Ble fo'n bosib bydd y Bartneriaeth, a'i Hawdurdodau Cyfansoddol, yn ceisio cydweithio gyda'i gilydd i ddatblygu datrysiadau buddsoddi sy'n cwrdd ag amcanion ac ymrwymiadau hinsawdd yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.

16 Os na ellir datblygu datrysiadau unedig sydd ar yr un pryd yn cwrdd ag amcanion a gofynion yr holl Awdurdodau Cyfansoddol, bydd y Bartneriaeth yn gweithio gydag unrhyw Awdurdod Cyfansoddol i ddatblygu datrysiadau buddsoddi wedi eu teilwra i'w galluogi i gyflawni eu hamcanion a'u gofynion lleol eu hunain.

17 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol y gall fod costau ychwanegol, neu arbedion ffi gostyngol, yn gysylltiedig á gwaith y Bartneriaeth o hwyluso'r datrysiadau buddsoddi hyn sydd wedi' teilwra ac maent wedi dangos eu parodrwydd i ysgwyddo'r costau i sicrhau eu bod yn gallu cwrdd â'u hamcanion a'u gofynion lleol.

18 Bob blwyddyn bydd y Bartneriaeth yn asesu os yw ei hymarfer ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi adnabod amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn barod i'w gefnogi. Os oes cefnogaeth unfrydol, gan wyth Awdurdod Cyfansoddol Cymru, bydd y Bartneriaeth yn ceisio mabwysiadu'r amcanion hyn sy'n ymwneud â'r hinsawdd fel 'Nod Hinsawdd' y Bartneriaeth gan eu hymgorffori ar draws holl Is-gronfeydd y Bartneriaeth.

19 Caiff Nod Hinsawdd y Bartneriaeth ei adolygu yn rheolaidd, yn dilyn ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol, a bydd bob amser yn cael ei yrru gan ofynion ac amcanion torfol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Os yw ymarfer ymgynghorol y Bartneriaeth gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol yn methu adnabod amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn barod i'w cefnogi yn unfrydol, yna ni fydd Nod Hinsawdd i'r Bartneriaeth yn cael ei lunio tan fo cefnogaeth unfrydol i Nod Hinsawdd penodol.

Strategaeth

20 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod gan yr holl asedau beth lefel o fod yn agored i risgiau yn ymwneud â'r hinsawdd, yn enwedig risgiau trosglwyddo, ond bod y sector, daearyddiaeth, ansicrwydd polisi ac amserlenni buddsoddi yn benderfynyddion allweddol o fod yn agored i risg hinsawdd.

21 O gydnabod ei threfniadau buddsoddi a'r cynigion presennol, bydd y Bartneriaeth yn canolbwyntio yn syth ar fod yn agored i risg yn ymwneud â'r hinsawdd yn ei daliadau ecwiti ac incwm sefydlog. Er hynny, bydd y Bartneriaeth yn ystyried risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd mewn dosbarthiadau ased eraill pan fo amgylchiadau yn caniatáu neu angen iddi wneud hynny. Bydd y Bartneriaeth yn ceisio darparu datrysiadau risg hinsawdd ar draws ei holl is-gronfeydd gan gynnwys asedau'r farchnad breifat.

22 Mae’r Bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd monitro eu hamlygiad i risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd mewn gwahanol ffyrdd. Un ffordd mae'r Bartneriaeth yn hwyluso hyn yw drwy fonitro’r risg y mae bob un o'r is-gronfeydd yn ei wynebu i sicrhau y bydd gan yr Awdurdodau Cyfansoddol yr holl wybodaeth wrth law. Mae'r Bartneriaeth yn derbyn Adroddiadau Monitro Risg Hinsawdd rheolaidd ar gyfer yr is-gronfeydd Ecwiti a'r is-gronfeydd Incwm Sefydlog. ac mae’n bwriadu ymestyn y dull yma o adrodd ar gyfer ei His-gronfeydd Incwm Sefydlog. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i chwilio ac ymchwilio i ddatblygiadau'r farchnad fydd yn gwella ei gallu i asesu bod yn agored i risg hinsawdd yn ei His-Gronfeydd.

23 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod rhinweddau ymgymryd â dadansoddiad senario ar effaith economaidd bosib y risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a chyfleu canfyddiadau’r dadansoddiad dywededig i'r Awdurdodau Cyfansoddol. Er hynny, mae'r WPP yn nodi bod hwn yn faes sy'n esblygu a bod dadansoddiad o'r fath yn ei fabandod. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i hwyluso dadansoddiad senario

hinsawdd ar draws asedau gaiff eu dal gan y Bartneriaeth i sicrhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol o'r risgiau hinsawdd posib yn Is-gronfeydd y Bartneriaeth.

24 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod hyfforddiant ac addysg yn hanfodol i gyflawni deilliannau da i'r rhan-ddeiliaid a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn ymgymryd â hyfforddiant ac addysg rheolaidd ar risg hinsawdd. Mae'r Bartneriaeth wedi ymrwymo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi flynyddol yn ymwneud â'r risg ar gyfer ei rhan-ddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal ymarfer adnabod anghenion hyfforddi blynyddol, ar y cyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol, mae hwn yn fecanwaith y defnyddia'r Bartneriaeth i fesur gofynion hyfforddiant risg hinsawdd ei rhan-ddeiliaid.

Gweithredu

25 Gellir gweld dull y Bartneriaeth i ddewis rheolwr yn y Polisi Buddsoddi Cyfrifol. Mae gan Reolwyr Buddsoddi is-gronfa'r Bartneriaeth gyfrifoldeb dirprwyedig i herio rheolwyr ar eu dull o ystyried risg hinsawdd fel rhan o'i broses o ddewis rheolwr.

26 Mae'r Bartneriaeth yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi sicrhau bod yr holl reolwyr gweithredol gwaelodol yn integreiddio ystyriaeth risgiau sy'n ymwneud â hinsawdd i'w proses fuddsoddi ac i herio rheolwyr gwaelodol yn rheolaidd i roi tystiolaeth am eu dull.

27 Bydd y Bartneriaeth yn gweithio gyda ei Rheolwyr Buddsoddi i sicrhau eu bod yn rhoi cyfrif am ac yn integreiddio risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn eu prosesau buddsoddi. Mae'r Bartneriaeth yn ystyried bod rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn feini prawf allweddol ym mhenodiad unrhyw Reolwr ac yn deall y bydd gan pob Rheolwr Buddsoddi ei fodd ei hun o integreiddio risg sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn eu proses fuddsoddi. Bydd y Bartneriaeth, o leiaf yn flynyddol, yn adolygu bob un o ddulliau ei Rheolwyr Buddsoddi tuag at integreiddio Risg Hinsawdd.

28 Gellir gweld strategaeth stiwardiaeth y Bartneriaeth yn y Polisi Buddsoddi Cyfrifol. Drwy ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, bydd y Bartneriaeth yn pwysleisio pwysigrwydd risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Yn benodol, bydd y Bartneriaeth yn annog ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i ymgysylltu â chwmnïau sy'n buddsoddi am faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd, yn cynnwys cynnydd yn y datgeliad ar risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd gan gwmnïau i fuddsoddwyr.

29 Mae gan y Bartneriaeth Bolisi Pleidleisio a chyfres o egwyddorion ymgysylltu yn eu lle fydd yn amlinellu sut y bydd yn defnyddio ei hawliau pleidleisio a gweithgareddau ymgysylltu i ddylanwadu ar gwmnïau sy'n buddsoddi. Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu y Bartneriaeth sydd yn gyfrifol am weithredu'r polisïau hyn ar ran y Bartneriaeth.

Monitro / Adrodd

30 Mae'r Bartneriaeth yn monitro risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd o fewn ei his-gronfeydd ecwiti yn chwarterol. Mae'r metricsau gaiff eu monitro yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, bod yn agored i gynhyrchwyr tanwydd ffosil, allyriadau carbon a dwysedd carbon cyffredinol. Bydd y Bartneriaeth yn monitro newidiadau yn arferion y farchnad i sicrhau ei bod yn llwyr ymwybodol o newid mewn arfer gorau a'r posibilrwydd o fonitro risg sy'n ymwneud â'r hinsawdd o fewn ei his-gronfeydd di-ecwiti, o leiaf yn flynyddol.

31 Yn ychwanegol at ei gwaith adrodd, bydd y Bartneriaeth angen i'r Rheolwyr Buddsoddi i ddarparu monitro ar fod yn agored i risg sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn eu hadroddiadau chwarterol i'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol. Fel y nodwyd uchod, bydd y Bartneriaeth yn y lle cyntaf yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi ecwiti ac incwm sefydlog ddarparu'r monitro hwn, gyda'r disgwyliad y bydd ei Reolwyr Buddsoddi amgen yn darparu'r wybodaeth hon cyn gynted ag y bydd yr is-gronfa'n lansio a datblygiadau'r farchnad yn caniatáu.

32 Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu y Bartneriaeth sy'n gyfrifol am lunio'r adroddiadau chwarterol a blynyddol ar weithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu'r Bartneriaeth. Mae'r adroddiadau hyn yn

dystiolaeth o sut mae'r Bartneriaeth wedi defnyddio ymgysylltu a phleidleisio i reoli ei risg sy'n ymwneud â'r hinsawdd.

33 Bydd y Bartneriaeth yn adrodd yn unol â gofynion y Taskforce for Carbon-related Financial Disclosures (TCFD), gan gynnwys adroddiad ar y camau a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn a bydd yn cefnogi'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda'u hadrodd TCFD eu hunain.

Tryloywder

34 Drwy ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu a'r Rheolwr Buddsoddi, bydd y Bartneriaeth yn annog pob cwmni sy'n buddsoddi i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n ymwneud â Hinsawdd.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Diweddariad cynnydd blynyddol yn erbyn ymrwymiadau'r polisi

Trosolwg

Pwrpas y papur hwn yw adolygu sut mae'r Bartneriaeth wedi bwrw ymlaen at gyflawni'r ymrwymiadau a wnaeth yn ei bolisïau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022. Hefyd, mae'r papur hwn yn adnabod meysydd ar gyfer gweithgarwch i'r dyfodol. Bydd y manylion yr adroddir arnynt yn y papur hwn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad Cod Stiwardiaeth y Bartneriaeth ar gyfer y flwyddyn.

Ni ddylid ystyried y papur hwn fel "Haen 4 - Monitro ac Adolygu" o ran fframwaith llywodraethu'r Bartneriaeth.

Ni ddylid rhyddhau'r papur hwn na'i ddatgelu fel arall i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gennym ni, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu oblygiad rheoleiddio. Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw barti arall oni bai ein bod wedi derbyn atebolrwydd o'r fath yn ysgrifenedig yn benodol.

Cefndir

Mae Cydbwyllgor Llywodraethu ('CLl') Partneriaeth Pensiwn Cymru ('PPC'/'Y Bartneriaeth') wedi cymeradwyo'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol ('BC') a Pholisi Risg Hinsawdd yn ffurfiol ar gyfer y Bartneriaeth. Mae'r polisïau hyn yn cynrychioli'r amrediad eang o gredoau buddsoddi yn y Pŵl, maent yn uchelgeisiol eu natur ac yn adlewyrchu dyhead y Bartneriaeth i fod yn arweinydd mewn Buddsoddi Cyfrifol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi gweithio i weithredu a chyflawni'r ymrwymiadau polisi amrywiol.

Cynhaliodd Hymans adolygiad blynyddol o'r polisi BC ym mis Hydref 2021, lle y gwnaed rhai diweddariadau i'r polisi i adlewyrchu'r cynnydd yr oedd y Bartneriaeth wedi'i gwneud yn ystod y cyfnod ers yr adolygiad blaenorol. Hefyd, fe adolygwyd y broses ar gyfer adolygu a diweddaru'r broses, lle y cytunwyd y dylid cynnal yr adolygiad polisi manwl llawn bob tair blynedd, a bydd hwn yn edrych yn fanylach ar addasrwydd y polisi a'r ymrwymiadau ynddo. Mae'r adolygiad manwl nesaf i fod i gael ei gynnal yn 2023.

Mae adolygiad ysgafn o'r polisi Risg Hinsawdd wedi cael ei gynnal ar wahân fel yn Ebrill 2022. Cynigir bod yr adolygiad manwl o'r polisïau Risg Hinsawdd a BC yn cael eu cynnal ar yr un pryd yn y dyfodol o ystyried y gorgyffwrdd rhwng y ddau.

Hefyd, cytunwyd i'r Bartneriaeth adolygu cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau yn y polisi BC yn flynyddol, er drwy ymgymryd â'r ymarferiad hwn, roedd hefyd yn briodol cynnal adolygiad o'r cynnydd yn erbyn ymrwymiadau yn y polisi Risg Hinsawdd. Cytunwyd y dylid cynnal hyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel bod hynny'n alinio â gofynion adrodd y Cod Stiwardiaeth. Trafodwyd yr adolygiad hwn gan yr Is-grŵp BC ar 5 Ebrill 2022.

Cynnydd yn Erbyn Ymrwymiadau

Mae Atodiad 1 yn rhoi asesiad manwl o gynnydd y Bartneriaeth o ran cyflawni ymrwymiadau ei bolisi BC yn ystod y 12 mis hyd 31 Mawrth 2022. Mae Atodiad 2 yn ymdrin ag asesiad tebyg ar gyfer ymrwymiadau dan y polisi Risg Hinsawdd. Nodwn yn y rhan fwyaf o achosion, mae cynnydd wedi parhau i gael ei wneud yn erbyn ymrwymiadau'r polisi.

Nodwn ar wahân bod yr FRC wedi darparu adborth ar yr adrodd diweddar ar y cod stiwardiaeth a bydd hyn yn cael ei ystyried wrth ddrafftio'r adroddiad ar gyfer 2021/22.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Gwnaed swm sylweddol o waith dros y flwyddyn ar BC a'r risg hinsawdd. Nodwn isod rai uchafbwyntiau.

- Ar ôl ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol, bydd y Bartneriaeth yn darparu adroddiad cynhwysfawr yn ymdrin â'r holl is-gronfeydd er dibenion TCFD, yn unol â gofynion pob Awdurdod Cyfansoddol. Hefyd, mae'r Bartneriaeth yn bwriadu adrodd yn unol â gofynion y TCFD.

- I barhau i wneud cynnydd ar weithgareddau stiwardiaeth y Bartneriaeth, mae adroddiadau pleidleisio ac ymgysylltu chwarterol Robeco yn cael eu hadolygu ac mae'r materion o ddiddordeb yn cael eu trafod gan yr Is-grŵp BC. Mae unrhyw faterion yn cael eu codi gyda Robeco fel bo'r angen.

- Cyhoeddodd y Bartneriaeth ei Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol cyntaf ac mae wedi cael ei dderbyn fel llofnodwr ar gyfer Cod Stiwardiaeth y DG yn 2020.

- Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu polisi pleidleisio mewnol Robect er bod y Bartneriaeth yn bwriadu rhoi polisi pleidleisio ei hun yn ei le (fydd yn cyfeirio at bolisi Robeco), yn amodol ar gymeradwyaeth y Cydbwyllgor Llywodraethu.

- Mae'r Bartneriaeth wedi trafod egwyddorion pleidleisio gyda BlackRock, ynghyd â'r mecanweithiau posib ar gyfer ymestyn y polisi pleidleisio i fandadau goddefol.

- Mae'r Bartneriaeth wedi gweithio gyda Russell a'r Awdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu'r Gronfa Ecwiti Cynaliadwy. Er fod hyn wedi creu peth deialog gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar y strategaeth hinsawdd, nid yw'r Awdurdodau Cyfansoddol, hyd yma, wedi cyrraedd sefyllfa lle gall y Bartneriaeth fabwysiadu amcan hinsawdd gyffredin.

- Mae'r Is-grŵp BC wedi bod wrthi'n monitro'r ESG a nodweddion hinsawdd ei is-gronfeydd ac yn trafod materion a godwyd gyda Russell.

Bylchau i ymdrin â nhw

Bu i'r adolygiadau hefyd nodi rhai mannau lle nad oedd gwaith wedi gwneud cynnydd dros y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Nid oes cynnydd wedi'i wneud ar ystyried Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, er bod peth gwaith wedi'i wneud ar ddatblygu proses i roi mewnbwn i Robeco ar themâu pleidleisio ac ymgysylltu allweddol. Bwriedir gwneud cynnydd pellach gyda'r maes gwaith hwn dros H2, 2022.

- Mae bwriad i'r bartneriaeth adrodd yn unol â gofynion TCFD ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a bydd yn cefnogi Awdurdodau Cyfansoddol sy'n dymuno gwneud yr un peth. Hefyd, ystyrir dadansoddi senarios, a sut y gallai'r Bartneriaeth wneud defnydd ohono'n llwyddiannus fel rhan o'r broses adrodd hon.

- Ni wnaeth y Bartneriaeth gwblhau adolygiad blynyddol ffurfiol o bob un o ddulliau ei Reolwyr Buddsoddi at integreiddio'r Risg Hinsawdd (ond bu iddo wneud gwaith sylweddol ar ddull Russell drwy graffu yn barhaus).

Meysydd ffocws i'r dyfodol

Wrth gwblhau'r asesiad hwn, nodwn y meysydd posib a ganlyn ar gyfer gweithgarwch/gwelliannau dros 2022/23:

1 Gwella'r broses ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Er ein bod yn nodi bod hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran datblygu anghenion hyfforddi, wrth fwrw ymlaen â'r Gronfa Ecwiti Cynaliadwy a thrwy'r strwythur pwyllgorau ehangach, erys meysydd lle gellir gwella'r broses hon, yn enwedig wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r nodau hinsawdd.

2 Asesu gweithrediad parhaus y strategaeth

Mae'r Is-grŵp BC wedi ceisio gwella'r mecanweithiau y mae'n eu defnyddio i graffu ar Russell, gan wneud gwell defnydd o'r wybodaeth sydd ar gael iddo. Fodd bynnag, mae sgôp pellach ar gyfer gwelliannau yn yr ardal hon. Rydym yn argymell gweithio gyda Russell i ddatblygu math o adrodd asesiad blynyddol i fodloni'r amrywiol ymrwymiadau yn y polisïau, a'r ddeialog barhaus o ran cyfarfodydd craffu i sicrhau bod rhain sy'n bodloni gofynion y Bartneriaeth yn y ffordd orau.

3 Chwilio am gyfleoedd pellach i gydweithio

Er bod rhai enghreifftiau o lle y bu cydweithio da ar ymgysylltu a bod gwaith y Bartneriaeth ei hun yn enghraifft bositif o'r ymdrechion i gydweithio, gellir ystyried ffyrdd eraill o gydweithio yn fwy manwl. Gallai cael gwell cydweithio o ran adrodd o fewn y Bartneriaeth hefyd fod yn fuddiol, yn enwedig o ran anghenion adrodd TCFD. Mae gwaith ar hyn wedi mynd rhagddo eisoes.

Casgliadau

Mae'r Bartneriaeth yn parhau i wneud cynnydd positif yn erbyn pob un o'r ymrwymiadau polisi y mae wedi'u gwneud, er, fel y disgwyliwyd, mae meysydd pellach i'w gwella.

Edrychwn ymlaen at drafod hyn â chi,
Edrychwn ymlaen i drafod hyn gyda chi.

Paratowyd gan:

Simon Jones, Partner
Iain Campbell, Uwch Ymgynghorydd Buddsoddi
Jamie Forsyth, Dadansoddwr Buddsoddi

Ar gyfer ac ar ran Hymans Robertson LLP

Mehefin 2022

Atodiad 1: Cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau polisi BC

Cyfeirnod	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
Y Strategaeth Fuddsoddi			
3.3	Bydd PPC yn ymgynghori gydag Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf unwaith y flwyddyn i bennu eu gofynion buddsoddi unigol a dyheadau tymor hirach.	Yn 2021, cyhoeddwyd yr holiadur dyheadau a gofynion (*'ambitions and requirements questionnaire'*) i'r Cydbwyllgor Llywodraethu, y Gweithgor Swyddogion, Pwyllgorau Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol a Chadeiryddion Byrddau Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol.	●
3.4	Bydd PPC hefyd yn ystyried cyfleoedd a gyfyd o well dealltwriaeth o ffactorau ESG.	Mae PPC yn ystyried ffactorau ESG a buddsoddiadau effaith fel rhan o'i drafodaethau Marchnadoedd Preifat. Mae'r RIWG wrthi'n gweithio gyda Russell ar hyn o bryd i ddatblygu is-gronfa ecwiti weithredol gynaliadwy, ac mae disgwyl iddi lansio yn ddiweddarach yn 2022.	●
Newid hinsawdd			
4.3	Bydd PPC yn ymgysylltu â'i ddarparwyr i sicrhau bod modd datblygu mecanwaith cyffredin i fonitro risgiau'n gysylltiedig â hinsawdd ar gyfer holl asedau PPC.	Ymgynghorwyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol ar fetricsau hinsawdd posib er dibenion adrodd. Bydd PPC yn darparu adroddiad cynhwysfawr yn ymdrin â'r holl is-gronfeydd er dibenion TCFD. Hefyd, mae'r Bartneriaeth yn bwriadu adrodd yn unol â gofynion y TCFD.	●
4.4	Drwy ei ddirprwyon, bydd PPC yn annog pob cwmni sy'n buddsoddi i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n Ymwneud â Hinsawdd.	Bydd y gweithgarwch ymgysylltu hwn yn cael ei wneud drwy Robeco a Russell. Mae PPC wedi tynnu sylw Robeco at y gofyniad hwn drwy ei egwyddorion pleidleisio a bydd yn parhau i ymgysylltu â Robeco ar y pwnc. **Rhoddir ystyriaeth i sut y mae hyn yn effeithio ar reolwyr newydd/is-gronfeydd**	●
Gweithredu'r strategaeth			
6.1, 6.3	Mae PPC yn disgwyl y bydd pob rheolwr buddsoddi a gyflogir o fewn PPC yn rhoi ystyriaeth briodol i risgiau sy'n ymwneud â hinsawdd a risgiau ESG eraill wrth wneud penderfyniadau o fewn eu portffolios priodol. Bydd PPC yn ymgysylltu â'i Reolwyr Buddsoddi yn barhaus i sicrhau bod ffactorau ESG yn cael eu hadlewyrchu'n dryloyw mewn prosesau gwneud penderfyniadau a bod	Mae Link/Russell, fel rhan o'u proses dethol rheolwyr, eisoes yn gwerthuso sut mae rheolwyr yn integreiddio risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a risgiau ESG eraill yn eu penderfyniadau. Mae'r RIWG yn gyfrifol am fonitro Russell a'r rheolwyr buddsoddi gwaelodol ar y graddau y maent wedi integreiddio'r ystyriaeth a roddir i risg hinsawdd ac ESG yn y portffolios y maent	●

Cyfeirnod	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
	modd tystiolaethu'n briodol y dull a ddefnyddiwyd i reoli ffactorau ESG.	yn eu rhedeg ar ran PPC. Mae'r RIWG wedi datblygu proses o dderbyn adroddiadau risg hinsawdd ac ESG gan eu hymgynghorwyr sy'n cyfeirio'r dasg o fonitro'r rheolwyr buddsoddi.	
6.2	Ym mhob amgylchiad perthnasol, mae PPC yn disgwyl i'w Reolwyr Buddsoddi fod yn llofnodwyr i'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol ("PRI") a Chod Stiwardiaeth y DU gan y Cyngor Adrodd Ariannol ("FRC").	Bydd PPC yn gwneud cais am adroddiad gan Russell/Link ar y graddau y mae hyn yn ei le.	
Stiwardiaeth			
7.4	Bydd PPC yn ymgysylltu â'i Reolwr Buddsoddi goddefol i ystyried sut y gellir ymestyn egwyddorion pleidleisio PPC i asedau a reolir gan ei Reolwr Buddsoddi goddefol.	Mae'r Bartneriaeth wedi trafod egwyddorion pleidleisio gyda BlackRock, ynghyd â'r mecanweithiau posib ar gyfer ymestyn y polisi pleidleisio i fandadau goddefol. Ni wnaed unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn	
7.5	Bydd y Bartneriaeth yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion unrhyw bleidleisiau na chafodd eu bwrw ac esboniadau lle na chafodd pleidleisiau eu bwrw yn unol â'r egwyddorion cytunedig ar sail chwarterol. Bydd PPC yn trafod unrhyw faterion sy'n achosi pryder gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.	Derbynnir adroddiadau pleidleisio chwarterol gan Robeco. Cynhelir adolygiad o'r adroddiadau pleidleisio a thrafodir materion o ddiddordeb gan y RIWG. Mae unrhyw faterion yn cael eu codi gyda Robeco fel bo'r angen.	
7.6	Bydd PPC yn adolygu'r polisi pleidleisio ar y cyd â'i Ddarparwr PaY, ymgynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi yn flynyddol.	Mae PPC wedi mabwysiadu polisi mewnol Robeco. Mae PPC yn bwriadu rhoi ei bolisi ei hun yn ei le, yn amodol ar gytundeb y Cydbwyllgor Llywodraethu.	
7.12	Bydd PPC yn derbyn adroddiadau yn flynyddol ar unrhyw ymgysylltu a wnaed gan ei Reolwyr Buddsoddi.	Mae PPC yn derbyn adroddiad ar y gweithgarwch ymgysylltu bob chwarter. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hadolygu yn chwarterol ac mae materion o ddiddordeb yn cael eu codi gyda Robeco fel bo'r angen. Mae PPC yn codi unrhyw faterion o bryder ar wahân gyda'r rheolwyr eraill, fel bo'r angen.	
Cydweithio			
8.1	Bydd PPC yn adnabod ac asesu cyfleoedd posib i gydweithio yn barhaus, yn cynnwys mentrau buddsoddi cyfrifol sy'n cael eu	Mae PPC angen ystyried p'un a yw ei fecanwaith presennol ar gyfer adnabod ac asesu cyfleoedd yn effeithiol a sut y gall gofnodi ei weithgareddau cydweithio. Byddai	

Cyfeirnod	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
	harwain gan fuddsoddwyr.	PPC ymgysylltu â Robeco a LAPFF ar gyfleoedd yma. Mae PPC wedi cael ei dderbyn fel llofnodwr i God Stiwardiaeth y DU 2020 ac mae wedi cyhoeddi ei adroddiad stiwardiaeth blynyddol cyntaf. Yn ogystal, mae PPC yn defnyddio ei sesiynau hyfforddi fel dull o ddysgu mwy ynghylch y cyfleoedd cydweithio sydd ar gael i PPC..	
8.3	Ynghyd â'i Ddarparwr PacY, bydd PPC yn ceisio adnabod mentrau a chydweithrediad buddsoddi cyfrifol, a arweinir gan fuddsoddwyr, y gall eu cefnogi'n frwd.	Mae PPC wedi ysgrifennu llythyr ar y cyd i Amazon, ar gyfarwyddyd Robeco.	
8.4	Bydd PPC yn annog rheolwyr buddsoddi gwaelodol i gymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu cydweithredol neu eu cefnogi pan ystyrir eu bod er budd ariannol cyffredinol gorau'r Awdurdodau Cyfansoddol.	Dim camau gweithredu wedi'u cymryd gyda hyn.	
8.5	Pan geir unrhyw gyfle addas, bydd PPC yn parhau i gydweithio gyda'r prosiect cydweithio BC traws-gronfa.	Mae PPC yn cael ei gynrychioli ar y grŵp BC ar draws y pŵl ac mae diweddariadau yn cael eu darparu'n rheolaidd i'r RIWG ar y gweithgarwch parhaus.	
Monitro, Adrodd a Mesur			
9.1	Bydd PPC yn datblygu metricsau monitro priodol ar gyfer ei bortffolios.	Mae'r Is-grŵp BC wedi sefydlu proses ar gyfer derbyn adroddiadau 'manwl' ar yr is-gronfeydd ESG a risg hinsawdd, sy'n cael eu darparu gan Hymans. Mae'r rhain yn caniatáu i PPC weld sut mae pob is-gronfa a rheolwr gwaelodol yn perfformio o ran yr hinsawdd ac ESG. **Bwriedir adolygu'r drefn adrodd yn ystod 2022/23.**	
9.3	Mae'n ofynnol gan PPC bod cymwysterau buddsoddi cyfrifol pob Rheolwr Buddsoddi a benodir yn destun adolygiad blynyddol. Ar y cyd â'r partion perthnasol, bydd PPC yn datblygu fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei Reolwyr Buddsoddi.	Mae Link/Russell, fel rhan o'u proses dethol rheolwyr, eisoes yn gwerthuso sut mae rheolwyr yn integreiddio ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol yn eu penderfyniadau. Mae PPC yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan ei reolwyr buddsoddi ar berfformiad a materion BC. **Bydd PPC yn gwneud cais am ddiweddariad gan Russell a Link ar**	

Cyfeirnod	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
		agweddau allweddol o'r is-gronfeydd fel ar 31 Mawrth 2022.	
9.4, 10.2	Bydd PPC yn paratoi a chyhoeddi adroddiad stiwardiaeth bob blwyddyn yn manylu ar y camau a gymerwyd er mwyn cyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd. Bydd PPC yn paratoi a chyhoeddi adroddiad stiwardiaeth blynyddol yn unol ag egwyddorion Cod Stiwardiaeth FRC y DU 2020.	Cwblhaodd PPC adroddiad stiwardiaeth ar gyfer y flwyddyn at 31 Mawrth 2021, a chafodd hwn ei gyflwyno i'r FRC ym mis Hydref 2021 a'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2022. Mae PPC wedi cael ei dderbyn fel llofnodwr i God Stiwardiaeth FRC y DG yn 2020.	
Arall			
10.1	Bydd PPC yn sicrhau bod o leiaf un sesiwn hyfforddiant ffurfiol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar Fuddsoddi Cyfrifol.	Yn ystod 2021/22, cafodd ys is-grŵp BC sesiynau oedd yn cynnwys sesiynau hyfforddi ar ddatblygu nodau hinsawdd, monitro a metricsau, a stiwardiaeth. Mae PPC wedi cynhyrchu cynllun hyfforddi 22/23 sy'n cynnwys y pynciau BC a ganlyn: • Beth mae BC yn ei olygu i PPC • Y Cod Stiwardiaeth ac Adrodd TCFD • Cynnydd Cronfeydd Cyfun Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol eraill • Cyfleoedd i Gydweithio	
10.3	Bydd PPC hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ymgorffori Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn ei gredoau BC a'i fecanweithiau monitro a mesur.	Ni chymerwyd camau arwyddocaol i fwrw ymlaen â'r dyhead hwn drwy'r flwyddyn er mae PPC yn parhau i fwriadu cyflwyno mandadau marchnadoedd preifat ac effaith.	
10.5	Bydd PPC yn adolygu cydymffurfiaeth pob parti â'r polisi hwn yn flynyddol. Bydd PPC yn cyhoeddi canlyniadau eu hasesiad fel rhan o'u hadroddiad stiwardiaeth a llywodraethu blynyddol.	Hefyd, bydd adroddiad stiwardiaeth blynyddol PPC a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn gweithredu fel adroddiad stiwardiaeth a llywodraethu BC PPC. Mae PPC wedi derbyn adborth ar wersi i'w dysgu o'r adroddiad a chan yr FRC, ac mae'r rhain am gael eu hystyried. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn bodloni gofyniad yr ymrwymiad hwn Bydd adolygiad manwl o'r polisi a'r ymrwymiadau yn cael ei gynnal bob 3 blynedd, gyda'r un nesaf i'w gynnal yn 2023.	

Atodiad 2: Cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau polisi hinsawdd

Cyfeirnod	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
Amcanion			
13	Bydd PCC yn ymgynghori gyda phob Awdurdod Cyfansoddol mewn perthynas â'u hamcanion hinsawdd, bob blwyddyn o leiaf, ac i lawn ddeall pa ddatrysiadau gweithredu maent eu hangen i gwrdd gyda eu hamcanion a'u hymrwymiadau.	Ni chynhaliwyd ymgynghoriad manwl yn ystod y 12 mis diwethaf, er y bu deialog o ran cyflwyno Cronfa Ecwiti Cynaliadwy. **Mae'r broses ar gyfer ymgynghori yn rheolaidd ar y risg hinsawdd am dderbyn blaenoriaeth yn ystod 2022/23.**	
14	Bydd PPC yn ymdrechu i ddatblygu a hwyluso datrysiadau buddsoddi sy'n galluogi pob Awdurdod Cyfansoddol i gyflawni ei amcanion a'i ymrwymiadau hinsawdd.	Mae'r Bartneriaeth wedi gweithio gyda Russell a'r Awdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu'r Gronfa Ecwiti Cynaliadwy. .	
15	Bydd PPC, a'i Hawdurdodau Cyfansoddol, yn ceisio cydweithio gyda'i gilydd i ddatblygu datrysiadau buddsoddi sy'n cwrdd â'r amcanion ac ymrwymiadau hinsawdd yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.		
